Rhif Cofrestru'r Elusen: 1146560

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 07779153 (Lloegr a Chymru)

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Ymddiriedolwyr | 1 - 18 |
| Datganiad o gyfrifoldeb ymddiriedolwyr | 19 |
| Adroddiad archwilwyr annibynnol | 20 - 21 |
| Datganiad o weithgareddau ariannol | 22 |
| Mantolen | 23 |
| Datganiad llif arian parod | 24 |
| Nodiadau i'r datganiadau ariannol | 25 -39 |

# LLENYDDIAETH CYMRU

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (GAN GYNNWYS ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR)**
***AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019***

**Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr**
**a Phrif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru**

Bu 2018-19 yn flwyddyn weddnewidiol i Lenyddiaeth Cymru. Yn dilyn penodiad ystod o Gyfarwyddwyr newydd ac amrywiol ym mis Mai 2018, y dasg fawr oedd datblygu Cynllun Strategol tair blynedd newydd ar gyfer 2019-22. Gwnaed hyn gyda chymorth sylweddol drwy Raglen Wytnwch ardderchog Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn ogystal â datblygu cofrestr risg newydd a chynnal adolygiad sefydliadol, roedd prif elfen ein ymrwymiad i'r rhaglen yn canolbwyntio ar ymgynghori â'r sector a sut y byddai hyn yn bwydo i mewn i'r strategaeth newydd.

Bu cymorth ymgynghorwyr y Rhaglen Wytnwch o ran hwyluso'r broses o ymgynghori â'r sector yn amhrisiadwy. Roedd y gwaith yma'n gyfle i ni fyfyrio ar flaenoriaethau'r sefydliad a sut y gallai fod yn fwy penodol yn ei ddarpariaeth a'r hyn mae'n ei gynnig. Roedd hefyd yn gyfle i godi pontydd ac i gryfhau partneriaethau allweddol yn y sector yn ehangach.

Buom yn ymgynghori â staff, ymddiriedolwyr, awduron, cyfranogwyr creadigol a darllenwyr, cyhoeddwyr, partneriaid – yn y sector celfyddydau a'r tu hwnt – yn ogystal â'n harianwyr. Buom yn ymgynghori mewn sawl ffordd, o arolwg cyhoeddus i gyfweliadau un-i-un gyda 24 o Ffrindiau Beirniadol. Roedd yr adborth a gawsom yn blwmp ac yn blaen, yn ddefnyddiol, yn onest ac yn graff. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn yr adroddiad hwn.

Mireinio yn hytrach na diwygio ein cenhadaeth ar gyfer 2016-2019 a wnawn yn y Cynllun Strategol newydd. Er ein bod yn dal i gredu bod sawl ffurf i lenyddiaeth ac y dylai pawb gael mynediad ati, dangosodd yr ymgynghoriad na allwn fod yn bopeth i bawb. Mae hyn wedi arwain at lunio cylch gwaith tynnach, gyda blaenoriaethau sydd wedi'u nodi'n eglur.

Cyflwynwyd y Cynllun Strategol cynhwysfawr i Gyngor y Celfyddydau ym mis Tachwedd 2018, ac ynddo rydym yn nodi ein gweledigaeth o Gymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau. Bydd tri phrif faes gwaith – y tair colofn gweithgaredd – lle byddwn yn canolbwyntio ein hegnïon yn ystod y tair blynedd nesaf: Cyfranogi; Datblygu Awduron; Dathlu Diwylliant Llenyddol Cymru. Mae'r colofnau i gyd yn gorgyffwrdd, a bydd llawer o'n gwaith yn llifo o un i'r llall, gyda datblygiad a dilyniant eglur yn ystod y tair blynedd. Er mwyn canolbwyntio ein gweithgareddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf, rydym wedi nodi blaenoriaethau tactegol a fydd yn croestorri drwy bob colofn: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb; Iechyd a Llesiant; a Phlant a Phobl Ifanc.

Wrth ddatblygu'r cynllun newydd, parhaodd gweithgareddau i fynd o nerth i nerth, ac mae adroddiad llawn ar ein rhaglen ar gyfer 2018/19 ar dudalen 5-9. Cafwyd llwyddiant mawr wrth lansio cynllun nawdd Llên a Lles, a chynhaliwyd seremoni Llyfr y Flwyddyn arall mewn ystafell orlawn yn y Tramshed yng Nghaerdydd. Un o'r uchafbwyntiau oedd cywaith gyda Llywodraeth Cymru, ar gais personol y Prif Weinidog Mark Drakeford, i gynnal diwrnod o ddigwyddiadau llenyddol yn y Senedd i gofio diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y digwyddiad, o'r enw Estyn yn Ddistaw, darllenodd y Prif Weinidog ac Aelodau Cynulliad eraill eu hoff gerddi rhyfel yn gyhoeddus. Uchafbwynt arall oedd sicrhau presenoldeb ffurfiol o Gymru yn Ffair Lyfrau Llundain, canlyniad partneriaeth sector llwyddiannus y Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Rhyngwladol.

Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, rydym yn hynod falch o waith caled ac ymroddiad parhaus staff ac ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru. Rydym yn rhannu'r un gwerthoedd a'r un uchelgais ar gyfer y sector, ac yn edrych ymlaen at weithredu'r cynllun newydd gyda brwdfrydedd ac egni.

Dr Kate North, Cadeirydd

Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (GAN GYNNWYS ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR)

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

---

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad a'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a amlinellir yn nodyn 1 y cyfrifon ac maent yn cydymffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 a'r ddogfen "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (fel y'i diwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn o 1 Ionawr 2016 ymlaen).

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Mae Llenyddiaeth Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru, ac mae'n un o'i wyth Cwmni Cenedlaethol penodedig.

Amcanion Llenyddiaeth Cymru, fel y'u diffinnir yn ei Erthyglau Cymdeithasu, yw:

- Hybu llenyddiaeth o Gymru yng Nghymru ac yn fyd-eang.
- Cefnogi gwaith ysgrifennu ym mhob un o ieithoedd Cymru a dathlu ei threftadaeth lenyddol.
- Meithrin hoffter o lenyddiaeth ymysg pobl o bob oedran, gallu a chefndir.
- Datblygu sgiliau llythrennedd a chreadigrwydd plant a phobl ifanc.

Mae Cynllun Busnes 2016-19 yn cyflwyno'r strategaeth ar gyfer cyflawni ei amcanion elusennol ac yn datgan cenhadaeth Llenyddiaeth Cymru fel a ganlyn:

> *Mae llenyddiaeth yn perthyn i bawb ac mae i'w chanfod ym mhobman. Drwy eiriau gallwn ddarganfod bydoedd newydd. Drwy weithio gydag eraill mewn amrywiaeth eang o gymunedau, gall Llenyddiaeth Cymru wneud llenyddiaeth yn llais i bawb.*

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth hon, canolbwyntiodd Llenyddiaeth Cymru ar bum maes strategol yn ystod 2018/19:

**Cyfranogi**
Gwella cyfleoedd pawb i gyfranogi mewn llenyddiaeth ledled Cymru.

**Cefnogi Awduron**
Datblygu a chefnogi awduron ar bob cam o'u taith ysgrifennu i gyflawni eu llawn botensial.

**Plant a Phobl Ifanc**
Rhoi rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob oedran, gallu a chefndir i greu a mwynhau'r byd llenyddol o'u cwmpas.

**Rhyngwladol**
Gweithio mewn partneriaeth i godi proffil awduron a gwaith o Gymru.

**Creadigrwydd Digidol**
Defnyddio creadigrwydd digidol i hybu llenyddiaeth ac i annog rhagor o bobl i ymwneud â'r maes.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn adolygu ei weithgarwch bob chwarter ac yn asesu sut mae pob gweithgaredd yn cyflawni un neu ragor o'i amcanion strategol. Gellir mireinio neu ailganolbwyntio gweithgarwch yn ystod yr adolygiadau hyn er mwyn cyflawni ein hamcanion yn well. Bob tair blynedd, mae Llenyddiaeth Cymru yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i strategaethau ar gyfer cyflawni ei amcanion. Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 12-13 am y broses o ddatblygu Cynllun Strategol 2019-22.

---

**Budd y Cyhoedd**
Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd a bod hyn wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad ac wrth gynllunio ei weithgareddau. Mae ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru yn fodlon bod amcanion y sefydliad, a'r strategaethau a ddefnyddir er mwyn eu cyflawni, yn sicrhau budd i bobl yng Nghymru.

Mae Llenyddiaeth Cymru o'r farn y gall llenyddiaeth fod yn llais i bawb ac y gall, ochr yn ochr â ffurfiau eraill ar gelfyddyd, helpu i ddatblygu llythrennedd pobl, eu creadigrwydd a'u capasiti ar gyfer mynegi eu hunain. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws gwahanol sectorau i sicrhau bod ei weithgareddau yn cael effaith ar lenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd, ac ar ymwneud pobl a materion cyfiawnder cymdeithasol ehangach. Mae Llenyddiaeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r ffaith nad yw cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn gydradd bob amser, ac un o'i brif flaenoriaethau yw gwella ystod y llwybrau creadigol sydd ar agor i ddarpar awduron, egin awduron a chyfranogwyr, a gwneud y llwybrau hynny'n fwy hygyrch iddynt. Mae'r Weithrediaeth yn asesu perfformiad pob menter yn rheolaidd o ran ymwneud â'r cyhoedd ac amrywiaeth y cyfranogwyr, ac maent hefyd wedi datblygu systemau Monitro a Gwerthuso mwy manwl (gweler tudalen 11) er mwyn gwella'r modd yr ydym yn olrhain ymwneud pobl â gweithgareddau.


Yn ystod 2018/19:

- Cymerodd 90,438 o bobl ran mewn gweithgareddau a ddarparwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru
- Bu 12,221 o bobl mewn digwyddiad wedi'i raglennu ar gyfer artistiaid a hwyluswyd gan Llenyddiaeth Cymru
- Cymerodd 340 o bobl ran mewn sesiwn hyfforddi a ddarparwyd gan Llenyddiaeth Cymru

Mae Llenyddiaeth Cymru yn buddsoddi amser i greu cyfleoedd agored a chyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i ymwneud â llenyddiaeth, ac yn ystod 2018/19:

- Cymerodd 31,934 o blant a phobl ifanc ran mewn digwyddiad a ddarparwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru
- Roedd 99 prosiect cyfranogol wedi'u hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc

Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon felly bod rhaglen Llenyddiaeth Cymru yn sicrhau budd sylweddol i Gymru, a byddant yn parhau i asesu ac ystyried ei berfformiad yn y maes hwn.



Llenyddiaeth Cymru mewn Rhifau
(Ffigyrau o 2011-2019)
Literature Wales in Numbers
(Figures from 2011-2019)
1
Murlun 13tr. *Cymru Ryfedd a Chyfareddol* ar adeilad y Tŵr Dŵr yng Nghaerdydd
13ft high *Weird & Wonderful Wales* mural on Cardiff's iconic Water Tower
2
Bardd Cenedlaethol Cymru
National Poets of Wales
5
Bardd Plant Cymru
Welsh-language children's laureates
22
Gweithgaredd ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru
Activity delivered in all 22 Local Authorities in Wales
49
Awdur wedi derbyn sesiynau mentora un-i-un unigryw
Writers have received bespoke 1-2-1 Mentoring
62
Tlws Llyfr y Flwyddyn wedi eu gwobrwyo
Wales Book of the Year trophies awarded
204
Ysgoloriaethau i Awduron a ddyfarnwyd
Writers' Bursaries awarded
433
Cyrsiau ysgrifennu creadigol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
Creative writing courses run at Tŷ Newydd Writing Centre
600
Cerddi gwreiddiol a gyfansoddwyd fel rhan o Her 100 Cerdd
Original poems written as part of Her 100 Cerdd
655
Awdur wedi tiwtora cwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
Writers have tutored at Tŷ Newydd Writing Centre
3,157
Awdur wedi mynychu cwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
Writers attended a course at Tŷ Newydd Writing Centre
3,871
Digwyddiadau a gefnogwyd trwy gynllun nawdd Awduron ar Daith
Events supported through Writers on Tour funding scheme
18,186
Plant sydd wedi cymryd rhan mewn gweithdai Bardd Plant Cymru
Children participated in a Bardd Plant Cymru workshop
400,746
Plant a phobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau
Children and young people participated in our activity
£673,000
Cyfanswm gwobrau Ysgoloriaethau i Awduron
Awarded in Writers' Bursaries
1,174,501
Cyfanswm cyfranogwyr ein holl weithgarwch
Total participants who have engaged in our activity
£1,180,462*
Cyfanswm a dalwyd i awduron fel ffioedd am ddigwyddiadau, gweithdai, darlithoedd ayyb.
Total paid to writers as fees for events, workshops, talks etc.
£2,673,482
Cyfanswm wedi ei gasglu o ffynonellau tu hwnt i'r sector gyhoeddus
Total raised from non-public funding sources
*ffigwr ar gyfer cyfnod 2013-2019
*figure for period 2013-2019

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (GAN GYNNWYS ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR)

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

---

**LLWYDDIANNAU A PHERFFORMIAD**

**Rhaglenni**

1. **Cyfranogi: Gwella cyfleoedd pawb i gyfranogi mewn llenyddiaeth ledled Cymru.**

**Ffrindiau Darllen**

Prosiect cyfeillio celfyddydol tair blynedd yw Ffrindiau Darllen, sydd â'r nod o rymuso, ysgogi a chysylltu pobl hŷn a phobl â dementia a'u gofalwyr drwy gychwyn sgyrsiau drwy ddarllen. Fe'i noddir gan y Loteri Fawr a'i reoli yng Nghymru gan Llenyddiaeth Cymru, ar y cyd â'n partner Prydeinig, y Reading Agency. Ers mis Medi 2018, mae Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn gweithio ar ddau gynllun peilot. Cywaith rhwng llyfrgelloedd a chartrefi gofal ledled y sir yw Ffrindiau Darllen Conwy, sy'n darparu gwasanaeth mewn lleoliadau gwledig ac yn enwedig mewn cymunedau amaethyddol Cymraeg. Mae Ffrindiau Darllen Abertawe yn tynnu ar fyfyrwyr Prifysgol Abertawe, staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a gwirfoddolwyr i gynnig darllen cymdeithasol ar wardiau yn Ysbyty Singleton, Abertawe, gan weithio gyda Llyfrgell Ganolog Abertawe ac elusen Discovery. Fel rhan o ymrwymiad Llenyddiaeth Cymru i lesiant ym maes y celfyddydau, mae Ffrindiau Darllen Cymru yn gwneud yr achos dros lenyddiaeth a darllen creadigol fel rhywbeth sy'n cyfrannu at iechyd meddwl a chorfforol cadarnhaol.

*Nododd 94% bod eu profiad o raglen Ffrindiau Darllen yn 'dda' neu'n 'ardderchog'*

*"Rydyn ni wedi colli cymaint o ymwneud cymdeithasol, felly mae cael rhywun yn lle'r grwpiau darllen ro'n i'n arfer cymryd rhan ynddyn nhw yn amhrisiadwy" – Jennifer Summers, Ffrind Darllen*

**Awduron ar Daith**

Mae cynllun nawdd Awduron ar Daith Llenyddiaeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau llenyddol sydd wedi'u creu a'u trefnu yn lleol ar hyd a lled Cymru. Mae'r cynllun yn galluogi pobl ym mhob rhan o'r wlad i ymwneud â llenyddiaeth drwy gynyddu amrywiaeth y digwyddiadau Cymraeg a Saesneg yn eu hardal, a'u gwneud yn fwy hygyrch. Mae modd cynnig hyd at 50% o ffioedd awduron i ymgeiswyr llwyddiannus, sy'n ei gwneud yn haws i drefnwyr mewn grwpiau lleol, ysgolion, cymdeithasau a mudiadau wneud llenyddiaeth yn rhan o'u rhaglenni. Yn ystod 2018/19, cefnogodd Llenyddiaeth Cymru dros 500 o ddigwyddiadau, gan gyrraedd dros 11,000 o bobl.

*"Mae'r digwyddiadau yma'n profi bod darllen er mwyn pleser ac adloniant hefyd yn gallu helpu i wella sgiliau llythrennedd plant drwy hogi eu sgiliau cyflwyno a darllen." – Trefnydd Awduron ar Daith*

**Llên Pawb**

Mae Llên Pawb yn darparu cyfleoedd ym maes llenyddiaeth er mwyn iechyd a lles yr unigolion mwyaf difreintiedig a bregus yn ein cymunedau. Ariennir y fenter drwy Grant Datblygu Cynulleidfa Cyngor y Celfyddydau, gyda chyfraniadau ariannol gan wyth Awdurdod Lleol – Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Caerffili, Casnewydd, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thor-faen, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid hyn i nodi ystod o gymunedau a grwpiau penodol ac i greu rhaglen o weithgareddau, gan weithio'n agos gydag awduron.

Llwyddodd Llên Pawb i ddatblygu a darparu dros 190 o ddigwyddiadau neu weithdai yn ystod 2018/19, gan ymwneud â thros 2,800 o unigolion. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys: gweithdai gyda grŵp Cymorth i Ferched Port Talbot i greu cyfres o ddarnau gair llafar; prosiect yn gweithio ar draws cenedlaethau ym Mhentrefoelas yng Nghonwy gan weithio yn yr ysgol gynradd leol; prosiect ysgrifennu creadigol yng ngrŵp Sied Dynion y Rhyl; prosiect partneriaeth TwLetteratura Cymru gyda mudiad Celf ar y Blaen mewn tair ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerffili; gweithdai gyda chlwb cinio pobl hŷn a grŵp dementia yn Sain Tathan; gweithdai gyda phobl ifanc wedi'u cefnogi gan elusen Mind yng Nghasnewydd; a gweithdy barddoniaeth gyda chyn-filwyr ym Mae Colwyn.

*"Gweithdai hudolus. Dw i eisiau dysgu rhagor. Mae wedi bod yn hwyl – a do'n i ddim yn gwybod bod dim rhai i farddoniaeth odli. Fe wnes i fwynhau arwyddo, a dysgu mwy o eiriau... O'n i ddim yn gwybod y byddwn i'n gallu ei wneud" – Cyfranogwr a gymerodd ran ym mhrosiect Cymorth i Ferched Port Talbot*

**Cynllun Nawdd Llên a Lles**

Mae Cynllun Nawdd Llên a Lles yn cefnogi awduron ac ymarferwyr celfyddydol i greu a darparu cyfres o weithgareddau ysgrifennu yn y gymuned. Yn dilyn galwad gyhoeddus, comisiynwyd naw awdur ac artist i ddatblygu a darparu prosiectau, oedd yn cynnwys: cwrs barddoniaeth preswyl mewn uned gofal lliniarol yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ac yn y gymuned gyda'r Prifardd Mererid Hopwood; gweithdy ysgrifennu creadigol a pherfformio gydag awduron LGBT+ yn Aberystwyth gyda Helen Sandler ac yng Nghaerfyrddin gyda Karen Gemma Brewer; cyfres o weithdai barddoniaeth a symud gyda'r grŵp dawnsio i bobl dros 60 oed, Cain, gyda Gwion Hallam a Cai Tomos yn Galeri, Caernarfon.

**Estyn yn Ddistaw**

Ym mis Chwefror 2019, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru ddiwrnod o fyfyrio ar Farddoniaeth Rhyfel a Heddwch yng Nghymru. Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Senedd ym Mae Caerdydd, ac fe'i noddwyd gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford AC, a'i drefnu gyda chymorth Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918, Cymru'n Cofio.

Roedd y diwrnod yn cynnwys darlleniadau a chyflwyniadau gan nifer o Aelodau Cynulliad, yn ogystal â chyflwyniadau, perfformiadau a darlithoedd wedi'u comisiynu gan rai o'n hawduron a'n beirdd mwyaf blaenllaw, gan gynnwys gwaith newydd gwreiddiol wedi'i berfformio gan: Fardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn; Gillian Clarke; Alan Llwyd; Eric Ngalle Charles; Nerys Williams; Cywion Cranogwen; disgyblion Ysgol Calon Cymru, Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd.

*"Mae popeth rydyn ni wedi'i glywed... yn dod yn rhan o'r adnodd parhaus sydd gyda ni nawr yng Nghymru wrth i ni feddwl am y materion yma sydd o bwys mawr. Maen nhw'n rhan o waddol parhaol coffâd Cymru am ganmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf, a byddan nhw'n gymorth i genedlaethau'r dyfodol ddysgu am y profiad yna a'i effeithiau pellgyrhaeddol, felly hoffwn ddiolch yn ddidwyll i chi i gyd am hynny". – y Prif Weinidog, Mark Drakeford AC*

### 2. Cefnogi Awduron: Datblygu a chefnogi awduron ar bob cam o'u taith ysgrifennu

**Llyfr y Flwyddyn**

Gwobr flynyddol i ddathlu doniau llenyddol eithriadol o Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yw Gwobr Llyfr y Flwyddyn. Mae tri chategori ym mhob iaith – Barddoniaeth, Ffuglen a Ffeithiol Greadigol, gydag enillydd un o'r tri chategori hefyd yn ennill y Wobr gyffredinol. Cynhaliwyd Seremoni Llyfr y Flwyddyn 2018 yn y Tramshed yng Nghaerdydd a'r enillwyr cyffredinol oedd *Blodau Cymru* (Y Lolfa) gan Goronwy Wynne a *Diary of the Last Man* (Carcanet) gan Robert Minhinnick. Mae'r seremoni yn ddathliad o awduron Cymru yn y ddwy iaith ac o bartneriaethau ar draws y sector llenyddiaeth. Cynhaliwyd cyfarfod o grŵp rhanddeiliaid am y tro cyntaf yn ystod 2018/19 er mwyn trafod datblygiadau strategol ar gyfer y Gwobrau.

Yn 2018, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru werthusiad o'r effaith roedd ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn wedi'i chael ar Alys Conran, awdur *Pigeon*, a gweld:

- Bod gwerthiant wedi cynyddu 43% ar ôl cyhoeddi Rhestr Fer Llyfr y Flwyddyn
- Bod yr hawliau ffilm, llwyfan a sain wedi'u gwerthu o fewn blwyddyn o ennill y wobr
- Bod y nofel wedi dod yn rhan o archeb WHSmith a bod siopau llyfrau mawrion eraill wedi cynyddu eu harchebion

*"Roedd Llyfr y Flwyddyn yn hollbwysig ar gyfer fy nofel gyntaf... Roedd y wobr yn arwyddocaol i fi ac i fy ngyrfa lenyddol, a bydd yn dal i agor drysau." – Alys Conran*

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (GAN GYNNWYS ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR)

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

---

**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Tŷ Newydd yw Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1990, ac mae'n cael ei rhedeg gan Llenyddiaeth Cymru. Mae'n arbenigo mewn cyrsiau ysgrifennu creadigol preswyl ac encilion ac mae grwpiau ar ymweliad yn cymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu a thiwtorialau un-i-un gydag awduron proffesiynol, a darlleniadau, gan ddwyn ysbrydoliaeth o'r awyrgylch braf yn yr adeilad rhestredig Gradd II* a'r tiroedd.

Roedd yr uchafbwyntiau yn ystod 2018/19 yn cynnwys cyrsiau ar gynghanedd, ysgrifennu caneuon, haiku, ysgrifennu ar gyfer plant ac oedolion ifanc, ysgrifennu trosedd, yoga, ysgrifennu nofel a sgriptio, gyda thiwtoriaid oedd yn cynnwys Willy Russell, Guto Dafydd, Louis de Bernières, Alys Conran, Pascale Petit a Clare Mackintosh. Llwyddodd dau gwrs partneriaeth newydd i ddenu criw da o gyfranogwyr newydd: croesawodd y Cwrs Egin Awduron ddeuddeg awdur ifanc (a naw ohonynt o Gymru) a gafodd glywed sgyrsiau hefyd am gyfleoedd eraill Gwasanaethau i Awduron Llenyddiaeth Cymru. Rhoddodd cwrs newydd arloesol mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru gyfle i 16 o awduron a darlunwyr ddatblygu eu gwaith ar gyfer plant, o dan arweiniad Jac Jones a Manon Steffan Ros.

Yn ystod 2018/19, bu 778 o unigolion ar gwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a dywedodd 97% o'r rhai fu yno y byddent yn dod am ymweliad arall.

*"Dyna oedd y tro cyntaf i fi sylweddoli mai bod yn awdur ydy'r hyn rydw i am ei wneud gyda fy mywyd. Roedd rhywbeth am yr wythnos yna – rhywbeth amwys. Fe newidiodd fi" – James Rice, Awdur* Alys and the Fly *(Hodder & Stoughton), a fu ar gwrs yn Nhŷ Newydd fel myfyriwr. Ers hynny, bu yno fel darllenydd gwadd, ac fel tiwtor cwrs.*

**Mentora ac Ysgoloriaethau Awduron**

Cyhoeddwyd enwau carfan cynllun Ysgoloriaethau a Mentora 2019 ym mis Ionawr 2019. Dyfarnodd Llenyddiaeth Cymru ugain o Ysgoloriaethau i Awduron a dwy Ysgoloriaeth Cefnogi, a chynigiodd le i ddeg awdur ar y Cynllun Mentora. Cynhaliwyd Cwrs Mentora penodedig wythnos o hyd yn Nhŷ Newydd ym mis Chwefror 2019, gyda deg cyfranogwr (a enillodd Ysgoloriaethau Awduron Newydd a chyfleoedd Mentora) yn gweithio gyda thri thiwtor, a dau siaradwr gwadd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod niferoedd y ceisiadau Cymraeg i'r cynllun wedi bod yn isel, rhoddwyd pwyslais ar dargedu awduron Cymraeg yng nghynllun cyfathrebu 2019, gan gynnwys cynnal diwrnod diwydiant penodedig yn yr Eisteddfod. O ganlyniad, bu cynnydd amlwg yn nifer yr ymgeiswyr a gyflwynodd waith ar y gweill yn Gymraeg: cafwyd ugain cais Cymraeg (15.2% o gyfanswm y ceisiadau), o gymharu â saith cais yn 2018.

*"I fi, yn fwy na dim, y rhodd fwyaf mae Ysgoloriaeth Awdur Newydd Llenyddiaeth Cymru wedi'i rhoi yw'r ymdeimlad o ddilysu a pharchu mae wedi ei gynnig – i fy ngwaith a fy 'llais'." – Jemima Roberts, Enillydd Ysgoloriaeth Awdur Newydd 2018.*

**Awduron wrth eu Gwaith**

Bu Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio unwaith eto gyda Gŵyl y Gelli ar ei rhaglen Awduron wrth eu Gwaith yn 2018/19. Dyma raglen ddatblygu broffesiynol sydd â'r nod o feithrin doniau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bu Llenyddiaeth Cymru yn cefnogi'r broses gwneud cais a'r broses ddethol, ac yn cynnig diwrnodau penodedig i'r diwydiant yn ystod Penwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli a'r ŵyl ei hunan ym mis Mehefin 2018. Mae'r fenter hon yn enghraifft o swyddogaeth Llenyddiaeth Cymru fel hwylusydd i'r sector a phwysigrwydd creu cysylltiadau rhwng y gwahanol gynlluniau sydd ar gael i gefnogi a datblygu awduron.

*"Mae Awduron wrth eu Gwaith wedi rhoi hyder, cysylltiadau ac ymdeimlad o gymuned i fi. Mae gen i bobl y galla i siarad â nhw, ysgrifennu atyn nhw, chwerthin gyda nhw am y broses, pobl y galla i gael adborth ganddyn nhw. Nid dim ond unrhyw bobl chwaith. Pobl dda. Awduron." Awdur wrth ei Waith, 2018-19.*

---

### *3. Plant a Phobl Ifanc: Rhoi rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob oedran, gallu a chefndir i greu a mwynhau'r byd llenyddol o'u cwmpas*

**Bardd Plant Cymru**

Llenyddiaeth Cymru sy'n rheoli cynllun Bardd Plant Cymru gyda'r partneriaid S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, yr Urdd a Llywodraeth Cymru.

Drwy weithdai, perfformiadau a gweithgareddau, mae'r cynllun yn cyflwyno llenyddiaeth i blant mewn ffordd egnïol, ddynamig a chyffrous. Mae'r prosiect yn hybu creadigrwydd, sgiliau cyfathrebu a hunan-fynegiant drwy hoffter o lenyddiaeth. Swydd lysgenhadol genedlaethol sy'n cael ei dyfarnu bob dwy flynedd i fardd Cymraeg yw Bardd Plant Cymru. Yn 2018/19, Casia Wiliam fu'n cyflawni'r swydd, a hi fydd y Bardd Plant tan ddiwedd mis Awst 2019.

Mae sawl elfen wahanol i'r cynllun, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion a gwyliau, ac ysgrifennu cerddi comisiwn. Yn ystod 2018/19, bu Casia Wiliam mewn 31 o ysgolion a chafodd nifer fawr o blant y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol megis gwyliau a chomisiynau. Bu hefyd yn cynnal gweithgareddau pellach, er enghraifft Clwb Cysgu Bardd Plant Cymru yn Nhŷ Newydd gyda phlant o flwyddyn 5 a 6 Ysgol Abererch, a chydweithiodd ar brosiectau i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r GIG, Wythnos Llyfrgelloedd, Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, Premier League Writing Stars a Gŵyl Llên Plant Caerdydd.

**Cyrsiau addysg Tŷ Newydd**

Croesawodd Llenyddiaeth Cymru ysgolion o bob rhan o wledydd Prydain i Dŷ Newydd yn ystod 2018/19, yn ogystal â chynnal cwrs preswyl ar gyfer Pop Up Projects, cwmni buddiannau cymunedol sy'n gweithio i ddod â llenyddiaeth i blant a theuluoedd o gwmpas Prydain. Cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru'r cwrs cyntaf ar gyfer Egin Awduron rhwng 18 a 30 oed, a chwrs Ysgrifennu ar gyfer Plant ac Ysgrifennu ar gyfer Oedolion Ifanc. Roedd nifer da yn bresennol yn y ddau, gan gynnwys sawl cyfranogwr o Gymru. Bydd y ddau yn ysgogiad ar gyfer datblygu'r maes cyhoeddi i blant yng Nghymru.

Rhoddwyd hyfforddiant proffesiynol penodedig i awduron ifanc drwy dair menter mewn partneriaeth: cynhaliwyd hyfforddiant blynyddol Cwrs Olwen ar gyfer enillwyr cystadlaethau llenyddol Eisteddfod yr Urdd ar gyfer deg awdur Cymraeg ifanc; cwrs Beirniaid Ifanc i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed o Gonwy; a chwrs preswyl yn Nhŷ Newydd ar y cyd â chwmni theatr y Frân Wen ar gyfer saith cynhyrchydd theatr a dramodydd ifanc.

*"Ro'n i'n nerfus pan gyrhaeddais i, ond erbyn i fi adael ro'n i wedi fy ngrymuso. Fe ddywedais i stori, a dod o hyd i arddull sy'n gweddu i fi." – Unigolyn fu ar gwrs addysg yn Nhŷ Newydd*

**Awduron ar Daith**

Cefnogodd Llenyddiaeth Cymru 135 o ddigwyddiadau gyda phobl ifanc yn 2018/19. Mae dros 3,000 o blant wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch a gefnogwyd drwy gynllun Awduron ar Daith, sy'n cynnwys Sgwadiau Sgwennu, digwyddiadau Diwrnod y Llyfr, gweithdai ac ymweliadau gan awduron i weld grwpiau o bob oedran, o ysgolion meithrin i arddegwyr yn paratoi ar gyfer diwedd eu hasesiadau ysgol.

**Adnoddau Addysg**

Bu Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio gyda Chanolfan Ymchwil Llenyddiaeth ac Iaith Saesneg yng Nghymru Prifysgol Abertawe, Cymdeithas Llên Saesneg Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru i greu taflenni dysgu ar y pymtheg cerdd o Gymru sydd ar faes llafur Llenyddiaeth Saesneg CBAC ar gyfer asesiadau 2019. Adnoddau ar gyfer athrawon yw'r rhain, i'w cynorthwyo i ddysgu barddoniaeth o Gymru, gan gefnogi cynnwys beirdd o Gymru ar gwricwlwm CBAC ac i ennyn diddordeb a chariad tuag at lenyddiaeth o Gymru ymysg pobl ifanc 14-16 mlwydd oed yng Nhymru a thu hwnt.

*"Diolch i chi am y ddolen adnoddau anhygoel ar gyfer asesiad dan reolaeth barddoniaeth Cymru TGAU Llenyddiaeth Saesneg CBAC. Mae hwn yn adnodd ategol amhrisiadwy ar gyfer athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd, ac rydyn ni'n hynod ddiolchgar i chi am ei rannu. Byddai unrhyw ehangiad ar gyfer 2021 (a'r tu hwnt) yn anhygoel!" – Kirsty Price, Arweinydd yr Adran Saesneg, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd*

---

### *4. Rhyngwladol: Gweithio mewn partneriaeth i godi proffil awduron a gwaith o Gymru*

**Bardd Cenedlaethol Cymru**

Swydd lysgenhadol ddiwylliannol sy'n cynrychioli'r gwaith ysgrifennu gorau o Gymru ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol yw Bardd Cenedlaethol Cymru, gan arwain ymgyrchoedd yng Nghymru ac ymddangos mewn digwyddiadau a gwyliau byd-eang er mwyn codi proffil gwaith ac awduron o Gymru. Ifor ap Glyn yw Bardd Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

Yn ystod 2018/19, yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau mewn cymunedau ledled Cymru, bu Ifor ap Glyn yn arwain ar Y Gadair Wag, perfformiad teithiol aml-gyfryngol am fywyd Hedd Wyn, fel rhan o Raglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918 Cymru'n Cofio. Mewn rôl sy'n cynyddol bwysig i'r genedl, fe'i gomisynwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru i ysgrifennu cerdd i gofnodi ugain mlynedd ers cael datganoli i Gymru a Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Cafodd yr ail gerdd - 'Lleisio' – ei ddarllen mewn sesiwn y Cenhedloedd Unedig ar ieithoedd lleiafrifol yn Efrog Newydd yn Chwefror 2019 gan Eluned Morgan AM, Gweinidog Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn ei waith fel Bardd Cenedlaethol, bu Ifor ap Glyn hefyd ar daith i Lithwania, Camerŵn a Tsieina, a rhyddhaodd naw podlediad yn trafod ei brofiadau, a ddarlledwyd i ddechrau ar BBC Radio Cymru.

**Ffair Lyfrau Llundain**

Gan adeiladu ar lwyddiant presenoldeb cyntaf Cymru yn Ffair Lyfrau Llundain yn 2018, bu'r Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Rhyngwladol yn cydweithio unwaith eto i ddarparu stondin wedi'i frandio ar gyfer Ffair Lyfrau Llundain yn 2019. Mae'r grŵp yn cynnwys saith o sefydliadau sy'n gweithio'n rhyngwladol yn y sector llenyddiaeth. Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, British Council Cymru, Llenyddiaeth ar draws Ffiniau, Llenyddiaeth Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru a PEN Cymru. Bu'r grŵp yn gweithio i sicrhau gwell cydweithio a chyfathrebu er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd rhyngwladol i awduron o Gymru, yn ogystal â gwneud llenyddiaeth o Gymru yn fwy amlwg yn rhyngwladol.

Bu'r cywaith yma i sicrhau presenoldeb o Gymru yn gyfle i ymwelwyr â Ffair Lyfrau Llundain, cynadleddwyr a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant gwrdd â rhai o sefydliadau llenyddol blaenllaw a chyhoeddwyr mwyaf llwyddiannus Cymru; cymryd rhan yn Seminarau Insights gyda phwyslais ar Gymru; darganfod straeon newydd o Gymru; a phori drwy'r llyfrau oedd yn cael eu harddangos. Roedd hefyd yn ganolbwynt ar gyfer llawer o'r gwaith negodi a fu ynghylch hawliau a gwerthiant, gan fynd â gwaith o Gymru i gynulleidfaoedd ehangach.

Bu stondin Cymru yn Ffair Lyfrau Llundain 2019 yn gartref i 12 o Gyhoeddwyr yn arddangos, 150 o gyfarfodydd a dros 5,000 o ymwelwyr.

**Tandem Europe**

Datblygodd Llenyddiaeth Cymru brosiect cydweithio Tandem Europe gyda Solidarios para el Desarrollo ym Madrid, Sbaen. Nod y prosiect, o'r enw Blas ar Fywyd, oedd mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd ymhlith pobl hŷn. Dau fardd o Gymru, Mike Church a clare e. potter, oedd yn arwain y prosiect, a oedd yn defnyddio technegau adrodd straeon a'r diddordeb byd-eang mewn bwyd lleol a rhyngwladol i godi proffil a llais pobl hŷn a'u swyddogaeth bwysig yn y gymuned. Mae gweithio mewn partneriaeth â Solidarios para el Desarrollo wedi galluogi Llenyddiaeth Cymru i wyntyllu ffyrdd newydd o weithio a rhannu ei arbenigedd mewn llenyddiaeth gyfranogol gyda phartner rhyngwladol.

*"Ro'n i'n teimlo'n dda drwy gydol y gweithgaredd ac yn hapus iawn. Fel arfer, rwy'n treulio'r dydd yn poeni am lawer o bethau, ond ar ddiwrnod y prosiect, wrth goginio ac adrodd fy hanes, anghofiais i bopeth ac fe ges i amser gwych!" – Jacinta, cyfranogwraig o Sbaen*

***5. Creadigrwydd Digidol: Defnyddio creadigrwydd digidol i hybu llenyddiaeth ac annog rhagor o bobl i ymwneud â'r maes***

**Her 100 Cerdd**

Mentrodd pedwar bardd i wynebu'r her o gyfansoddi 100 cerdd mewn 24 awr, fel rhan o ddathliadau Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth. Mae'r prosiect yn gwahodd y cyhoedd i ddilyn hynt y beirdd, yn ogystal ag anfon awgrymiadau ar gyfer testun y cerddi hefyd. Ym mis Hydref 2018, cafodd y beirdd gyfweliad ar raglen gylchgrawn *Heno* ar S4C, a'r *Post Cyntaf* ar BBC Radio Cymru. Gwnaed 113.8K o argraffiadau ar Twitter.

**Datblygu Busnes**

**Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru**

Yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Diwylliant, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wybod i Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru na fyddai argymhellion yr Adolygiad yn cael eu gweithredu'n llawn a bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio yn lle hynny ar uno'r sector. Mae Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru wedi mynd ati i feithrin perthynas strategol gryfach, gan gynnwys gwella cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad, gwaith prosiect cydweithredol cryfach a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Datblygwyd cyfres o fentrau newydd yn ystod 2018/19, gan gynnwys cyfraniad Cyngor Llyfrau Cymru at grŵp llywio newydd ar gyfer Llyfr y Flwyddyn, Cwrs Ysgrifennu ar gyfer Plant i Egin Awduron yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a'r ddau gorff yn anfon cynrychiolaeth i baneli ei gilydd, sef panel Ysgoloriaethau/Mentora Awduron Llenyddiaeth Cymru a phanel Grantiau Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau.

**Ennill Ysgoloriaeth Greadigol Weston Jerwood**

Yn 2017-18, roedd Llenyddiaeth Cymru yn un o ddim ond dau sefydliad yng Nghymru i ennill Ysgoloriaeth Greadigol Weston Jerwood. Crëwyd swydd newydd Swyddog Datblygu a Chyfathrebu i gwblhau contract blwyddyn rhwng mis Chwefror 2018 a mis Ionawr 2019. Yn yr amser hwn, bu'r cyfranogwr yn datblygu ac yn gweithredu system Monitro a Gwerthuso benodedig i dracio effaith y sefydliad. Buont yn casglu data ac yn cynhyrchu ffeithluniau i ddangos effaith Llenyddiaeth Cymru, yn cyfrannu at y strategaeth Monitro a Gwerthuso dair blynedd, ac yn cefnogi gweithgareddau yn ymwneud â gwella cynrychiolaeth a chydraddoldeb o fewn y sector llenyddiaeth. Bu'r cyfranogwr hefyd yn gwneud lleoliad rhyngwladol yng Ngwlad Pwyl o dan arweiniad y British Council.

O ganlyniad i'r rhaglen, mae Llenyddiaeth Cymru wedi diwygio ei brosesau recriwtio, a gofynnwyd i'r cwmni hefyd brofi a chyfrannu at y Pecyn Cymorth arloesol ar gyfer cyflogwyr, *Socio-economic Diversity and Inclusion in the Arts,* y mae Jerwood Arts a Grŵp Bridge yn bwriadu ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. Cafodd y cyfranogwr gyfle hefyd i gyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr Sefydliad Garfield Weston, a gyfrannodd at benderfyniad y Sefydliad i ariannu rhifyn 2020-22 y rhaglen.

**Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol**

Caiff yr holl bolisïau Adnoddau Dynol eu hadolygu a'u cymeradwyo bob blwyddyn gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru, gyda chymorth yr arbenigwyr adnoddau dynol, Thomas Carroll. Roedd y diweddariad mwyaf diweddar yn cynnwys fframwaith newydd i gefnogi materion rheoli perfformiad – Cynllun Gwella Perfformiad – Polisi a Gweithdrefn – sy'n cynnig canllawiau eglur ac yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer rheolwyr llinell a chyflogeion.

Yn 2018/19, rhoddwyd cynnig ar system Adolygu Datblygiad Proffesiynol newydd, a gofynnwyd i'r staff roi adborth ar y weithdrefn drwy arolwg dienw. Bydd yr adborth hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r weithdrefn fel rhan o'r adolygiad ehangach o strwythurau sefydliadol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda chefnogaeth Rhaglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Datblygiad Masnachol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Yn ystod 2018/19, datblygodd yr ymddiriedolwyr a'r tîm gweithredol Gynllun Busnes manwl ar gyfer ail-ddatblygu Nant, bwthyn gyda dwy ystafell wely ar safle Tŷ Newydd. Roedd angen adnewyddu'r bwthyn ac nid oedd mewn cyflwr digon da i'w ddefnyddio. Ar ôl ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu'r gwaith, cadarnhaodd yr

ymddireidolwyr gynllun i drefnu benthyciad mewnol o £30,000 o gronfa dynodedig Cymunrodd Glyn Jones i alluogi Llenyddiaeth Cymru i gomisiynu'r gwaith. Bu cais i Sefydliad Teulu Ashley am £9,000 tuag at gostau'r prosiect hefyd yn llwyddiannus.

Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod Ebrill – Mehefin 2019, ar gyfer agor erbyn Gorffennaf 2019. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod cegin ac ystafell ymolchi newydd, gwaith trydanol, paentio a gosod dodrefn a ffitiadau newydd. Bydd y bwthyn yn darparu llety dwy ystafell wely hunan-gynhwysol i'w ddefnyddio fel llety ychwanegol yn ystod cyrsiau brysur, encil i awduron, ac i'w llogi i unigion pan nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhaglen greadigol. Bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y bwthyn dros y dair mlynedd nesaf yn ein galluogi i ad-dalu'r llog mewnol dros y cyfnod hwn, gan gynnwys cyfradd llog rhesymol.

### Strategaeth Monitro a Gwerthuso

Yn 2018/19, datblygwyd y System Monitro a Gwerthuso fewnol. Hyfforddwyd aelodau o staff ym mis Ionawr 2019 a chawsant gynnig cymorth un i un er mwyn cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith yn swyddogol. Nod y System Monitro a Gwerthuso yw gwreiddio dulliau cipio data a dadansoddi gweithgarwch safonedig yn y modelau cyflawni presennol a rhagarweiniol. Caiff y data hwn ei gadw mewn canolbwynt data canolog sy'n galluogi'r sefydliad i gyfleu'r wybodaeth hon yn allanol mewn ffordd effeithiol gan gefnogi gwaith adrodd sefydliadol lefel uchel i'r Uwch Dîm Rheoli, Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r system yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer Strategaeth Monitro a Gwerthuso 2019-2022.

### Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym ym mis Mai 2018. I baratoi at hynny, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru awdit o'r data personol oedd yn cael ei ddal gan y sefydliad, gan gynnwys nodi'r seiliau cyfreithiol oedd yn ofynnol er mwyn diogelu data at ddibenion Llenyddiaeth Cymru. Mae hysbysiadau preifatrwydd wedi'u paratoi er mwyn rhoi gwybod i staff, ymddiriedolwyr a chleientiaid am eu hawliau o dan y Rheoliad, ac mae hysbysiad preifatrwydd sefydliadol Llenyddiaeth Cymru ar gael yn gyhoeddus. Mae system rheoli cysylltiadau newydd yn y camau cyntaf o gael ei ddefnyddio gyda seiliau cyfreithiol yn cael eu darparu ar gyfer pob cyswllt sydd wedi'i gynnwys. Mae ffurflenni cydsyniad unigol ar gyfer gwaith marchnata Llenyddiaeth Cymru yn cael eu darparu fel mater o drefn ar y cyswllt cyntaf erbyn hyn. Mae adnoddau er mwyn casglu cydsyniad wedi'u paratoi i gynorthwyo'r staff. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad yn cael ei monitro'n barhaus a bydd y gwaith yn cael ei fireinio yn unol â'r arferion gorau a'r adborth sy'n cael ei gyflwyno.

### Recriwtio i'r Bwrdd Rheoli

Yn dilyn ymgyrch recriwtio gyhoeddus, cafodd naw ymddiriedolwr eu penodi, gyda saith yn ymuno ym mis Mai 2018, a'r ddau arall yn ymuno ym mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019. Datblygwyd pecyn cynefino ar gyfer y Cyfarwyddwyr, a bu'r holl Gyfarwyddwyr mewn sesiwn hyfforddi llywodraethiant cyn Cyfarfod Bwrdd mis Mai 2018.

### Cynllun Gweithredu Llywodraethiant

Rhoddodd y Weithrediaeth Gynllun Gweithredu Llywodraethiant ar waith ar gyfer 2018 er mwyn adolygu a datblygu elfennau penodol o'r prosesau a'r gweithdrefnau llywodraethiant. Roedd hyn yn cynnwys gwella'r broses gynefino a hyfforddiant i'r ymddiriedolwyr, adolygu rheolaethau mewnol, dadansoddi awdit sgiliau a recriwtio er mwyn llenwi bylchau a nodir yn y Bwrdd, ac adolygu'r Erthyglau Cymdeithasu.

Gan mai yn 2011/12 y cofrestrodd Llenyddiaeth Cymru fel elusen a chwmni cyfyngedig drwy warant, penderfynodd y Bwrdd y dylid adolygu a diweddaru'r Erthyglau Cymdeithasu yn ystod 2018/19 er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas. Gyda chymorth cwmni Geldards LLP, diwygiwyd amcanion elusennol Llenyddiaeth Cymru i adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yng Nghynllun Strategol 2019-2022. Cymeradwywyd yr amcanion diwygiedig gan Fwrdd Llenyddiaeth Cymru ym mis Tachwedd 2018, ac mae disgwyl i'r Erthyglau terfynol gael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019. Bydd yr Erthyglau diwygiedig yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau i'w cymeradwyo.

---

Bwriedir cynnal sesiwn hyfforddi bellach ar Lywodraethiant ym mis Mai 2019, a disgwylir y bydd y Cynllun Gweithredu Llywodraethiant yn cael ei ddiweddaru ar gyfer 2019 yn dilyn y sesiwn hon.

**Rhaglen Wytnwch Cyngor y Celfyddydau**

Ym mis Ebrill 2018, cafodd Llenyddiaeth Cymru ei dderbyn ar Raglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cefnogi aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru i weithio tuag at ddod yn sefydliadau gwell a mwy gwydn. Bu Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i wyntyllu a herio pa feysydd yn ei waith oedd â'r mwyaf o le i wella o fewn ffiniau'r rhaglen. Penderfynwyd y byddai Llenyddiaeth Cymru yn canolbwyntio i ddechrau ar reoli risg ac ymgynghori â'r sector.

Gan weithio'n agos gydag ymgynghorwr o'r Rhaglen Wytnwch, adolygodd Llenyddiaeth Cymru ei ddiwylliant a'i systemau rheoli risg presennol. Roedd yn eglur bod lle i wreiddio dulliau dadansoddi risg dynamig ledled y sefydliad, yn ogystal â dyfnhau'r dadansoddiad hwn i gynnwys graddnodi archwaeth risg a deall risgiau fel bygythiadau a chyfleoedd. Mae cofrestr risg newydd aml-haenog yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, wedi'i fframio ar y Cynllun Strategol newydd. Bydd hon yn cael ei chwblhau ledled y sefydliad ar lefel prosiect, ar lefel weithredol ac ar lefel strategol drwy gydol y flwyddyn, gyda safleoedd y risgiau sy'n weddill yn pennu cyfrifoldebau ar lefel ymddiriedolwyr, y weithrediaeth a staff.

Roedd y gwaith ymgynghori â'r sector wedi'i gysylltu â datblygiad Cynllun Strategol 2019-22 yn y man cyntaf, gyda'r nod o sefydlu fframwaith gweithio i lywio ac asesu cynnydd y sefydliad dros y tair blynedd nesaf. Gan weithio'n agos gyda dau ymgynhorwr o'r Rhaglen Wydnwch, sefydlodd Llenyddiaeth Cymru dri llwyfan ymgynghori newydd: dau grŵp ffocws o staff, y weithrediaeth, ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid allweddol; arolwg o randdeiliaid unigol a sefydliadol gydag 89 o ymatebwyr; a rhwydwaith o 24 o gyfeillion beirniadol. Yn ystod haf 2018, defnyddiwyd y tri llwyfan hyn er mwyn dadansoddi Cynllun Busnes Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2016-19 a'r tair blynedd o weithgarwch cysylltiedig. Bu'r adborth yn sail ar gyfer meddwl strategol newydd, gyda rhai meysydd o gonsensws amlwg a meysydd eraill gyda barn gwbl ranedig. Ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol, gofynnwyd i gyfeillion beirniadol wneud sylwadau ar ddrafftiau gwaith o'r Cynllun Strategol. Yn dilyn ei lansiad ym mis Mai 2019, bydd Llenyddiaeth Cymru yn dychwelyd at y tri llwyfan ymgynghori sectorol i gael adborth ar Gynllun Strategol 2019-22 a'i weithrediad.

**Cynllun Strategol 2019-22**

Roedd Rhaglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru, a amlinellir uchod, yn cynnig cymorth arbenigol amserol yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun Strategol 2019-22, gan helpu o ran sicrhau adborth ystod lawn o bartneriaid a chleientiaid a fframio'r adborth hwnnw. Bu dadansoddiad o'r safbwyntiau hyn yn sail pwysig ar gyfer siapio natur y cyfeiriad strategol newydd, a ddaeth yn fwyfwy eglur drwy ymgynghori pellach ar ddrafftiau gwaith.

Caiff Cynllun Strategol 2019-22 ei lansio ym mis Mai 2019. Mewn ymateb i gonsensws amlwg iawn bod angen mwy o eglurder ynghylch beth yw Llenyddiaeth Cymru ac er lles pwy mae'n bodoli, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dri grŵp pendant o gleientiaid sydd wedi'u cysylltu â thair colofn gweithgaredd:

- Cyfranogwyr Creadigol / Cyfranogi
- Egin Awduron / Datblygu Awduron
- Awduron Profiadol / Diwylliant Llenyddol Cymru

Bydd tair blaenoriaeth dactegol yn croestorri drwy'r tair colofn gweithgaredd hyn. Nid mathau o weithgaredd yw'r rhain, ond blaenoriaethau thematig a fydd i'w gweld ym mhopeth mae Llenyddiaeth Cymru yn ei gyflawni:

- Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb
- Iechyd a Llesiant
- Plant a Phobl Ifanc

Drwy'r blaenoriaethau tactegol hyn, nodwyd tair nodwedd o grwpiau targed o gleientiaid i gael cymorth ychwanegol drwy weithgarwch Llenyddiaeth Cymru:

- Unigolion o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Unigolion ar incwm isel
- Unigolion gydag anableddau neu salwch (meddwl a chorfforol)

Mae gweledigaeth a chenhadaeth newydd Llenyddiaeth Cymru yn plethu'r colofnau gweithgaredd, y blaenoriaethau tactegol, y grwpiau cleient a nodweddion cleientiaid targed:

Byddwn yn ysbrydoli cymunedau, yn datblygu awduron ac yn dathlu diwylliant llenyddol Cymru drwy:
- Wneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch a chynyddu ei effaith i gyfranogwyr yng Nghymru;
- Galluogi egin awduron i achub ar gyfleoedd i hogi ac amrywio eu sgiliau;
- Cryfhau ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru

Bydd hyn yn creu gwlad lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Trosolwg

Mae Llenyddiaeth Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ar hyn o bryd mae'n cael cyllid blynyddol o £742,264. Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn un o awdurdodau dirprwyedig y Loteri, sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid drwy gynllun Awduron ar Daith a Chynlluniau Mentora ac Ysgoloriaethau Awduron, gyda chyllideb o £96,000 i gyd. Mae cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynrychioli 70% o holl incwm Llenyddiaeth Cymru.

Mae dadansoddiad pellach isod o ffynonellau incwm Llenyddiaeth Cymru a'i ymdrechion i gynyddu incwm o ffynonellau heblaw arian cyhoeddus.

### Codi arian

Yn 2018/19, bu Llenyddiaeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflawni strategaeth codi arian 2016-19 a datblygu fersiwn newydd ar gyfer 2019-22 gyda chefnogaeth prosiect Archwiliad Iechyd y Sefydliad Codi Arian. Nod strategaeth codi arian 2016-19 oedd lleihau cyfran yr incwm oedd yn dod o arian cyhoeddus, a hynny o 10 pwynt canran rhwng 2016/17 a 2018/19. Yn 2018/19, 74% o holl incwm Llenyddiaeth Cymru oedd yn dod o arian loteri, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (£880,812) o gymharu ag 83% (£995,174) yn 2016/17.

Yn 2018/19, gwelwyd yr incwm masnachol yn dal i dyfu, yn bennaf yn sgil gwerthu mwy ar gyrsiau cyffredinol a chyrsiau caeedig Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Mae ailddatblygu'r ganolfan yn 2015/16, a gwelliannau parhaus ers hynny o ran rhaglennu, marchnata, gweithrediadau a lletygarwch wedi dal i sicrhau canlyniadau:

| | **Ffynhonnell: Masnachol** – Cyrsiau cyffredinol a chaeedig Tŷ Newydd gyda'i gilydd | | |
|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | **2018/19** |
| Incwm | £154,855 | £172,502 | **£207,010** |
| Gwariant | £91,797 | £85,207 | **£99,023** |
| Elw/Colled | £63,058 | £87,296 | **£107,987** |

Bydd y bwriad yn 2019/20 i adnewyddu Nant, y bwthyn dwy ystafell wely sydd ar y safle, a'i droi'n encil hunan-gynhwysol i awduron ac yn llety dros ben ar gyfer cyrsiau, yn creu ffynhonnell o incwm masnachol hirdymor ychwanegol.

Gwelwyd cynnydd o ran cyllid nwyddau yn ogystal, a dylai buddsoddiad ac ymdrech barhaus yn y maes hwn arwain at dwf pellach yn 2019/20. Rydym yn manteisio ar botensial gwerthu nwyddau ar sail eiddo deallusol gweithgarwch twristiaeth lenyddol ddiweddar (Gwlad y Chwedlau a Chymru Ryfedd a Chyfareddol), gyda'r rhan fwyaf o werthiannau 2018/19 yn deillio o rediad cyfyngedig o 200 o brintiau giclée o Furlun Tŵr Dŵr Gorsaf Rheilffordd Caerdydd Pete Fowler (pris gwerthu £100 heb ffrâm/£150 gyda ffrâm) a pheilota cardiau cyfarch, bagiau tote a chrysau-t Gwlad y Chwedlau. Gwnaed gwerthiannau o £7,426 gyda gwariant cysylltiedig o £6,223, sy'n golygu elw o £1,203.

Bydd siop ar-lein Llenyddiaeth Cymru yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2019. Bydd hyn yn creu marchnad ganolog ochr yn ochr â siop ar-lein Gwlad y Chwedlau, stondinau dros dro mewn gwyliau a siop ar y safle yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

Mae cyllid grant o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol wedi'u cydgrynhoi, gyda llai o geisiadau cystadleuol wedi'u cyflwyno o gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd pwyslais parhaus ar ddatblygu strategaeth codi arian 2019-22 ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol newydd (gweler uchod). Cafwyd incwm o ddeg cais am grant, gan gynnwys £37,758 gan yr Asiantaeth Ddarllen ar gyfer prosiect Ffrindiau Darllen:

| | **Ffynhonnell: Incwm Sefydliadau ac Ymddiriedolaethau Elusennol – cyfanswm** | | |
|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | **2018/19** |
| Incwm | £21,751 | £79,416 | **£77,472** |

Yn ystod 2018/19, datblygwyd sawl ffynhonnell ariannu arall a'u gwreiddio i gryfhau ein huchelgais i arallgyfeirio refeniw ymhellach yn 2019/20, gan gynnwys templedi nawdd gorfforaethol a darpariaeth Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Bydd strategaeth codi arian 2019-22 yn dod i rym o 1 Ebrill ymlaen ac yn cefnogi'r gweithgarwch a'r datblygiadau gweithredol a amlinellir yng Nghynllun Strategol 2019-22. Mae'n symud pwyslais codi arian Llenyddiaeth Cymru tuag at gynyddu gwaith creu incwm anghyfyngedig y sefydliad er mwyn magu gwytnwch yn erbyn toriadau i arian cyhoeddus yn y dyfodol.

### Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn diweddaru'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn bob blwyddyn, gan ymateb i'r cyllidebau blynyddol ac asesiadau'r Gofrestr Risg. Caiff lefelau'r cronfeydd wrth gefn eu hadrodd i'r Bwrdd bob chwarter.

Nod Llenyddiaeth Cymru yw cadw £175,000 yn ei gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig, sydd wedi'u rhannu yn Gronfeydd Gweithio, y gall y Weithrediaeth dynnu arnynt i reoli sefyllfa llif arian parod tymor byr, a'r Cronfeydd Cyffredinol y gellir eu defnyddio i helpu i leihau effaith amgylchiadau nas rhagwelwyd gan gynnwys costau yn ymwneud â chyflawni ymrwymiadau'r polisïau adnoddau dynol ac unrhyw waith cynnal a chadw neu gadwraeth yn Nhŷ Newydd. Rhaid i'r Ymddiriedolwyr drafod a chytuno ar unrhyw wariant yn y Cronfeydd Cyffredinol.

Ar ddiwedd 2018/19, gweddill y cronfeydd anghyfyngedig oedd £203,027. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd rhydd o £180,088 ac Asedau Sefydlog o £22,939.

### Adolygiad o dir ac adeiladau rhydd-ddaliad

Ar ôl cael cyngor ariannol annibynnol, adolygodd yr Ymddiriedolwyr y statws a'r polisi cyfrifo ar gyfer tir ac adeiladau rhydd-ddaliad. Ers cymryd perchnogaeth o Dŷ Newydd a Hafoty, y polisi cyfrifo oedd i beidio â dibrisio'r eiddo, gan fod statws rhestredig yr eiddo ynghyd â pholisi o barhau â gwaith cynnal a chadw yn golygu y byddai gwerth gwireddadwy net yr eiddo bob amser yn uwch na'i gost. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ceisio adroddiadau ar werth marchnad yr eiddo, sy'n sylweddol is na swm cario ymlaen yr ased. Felly, mae'r

Ymddiriedolwyr wedi penderfynu cydnabod colled amhariad ar yr eiddo, a mabwysiadu amcangyfrif o werth marchnad diweddaraf yr eiddo fel gwerth yr ased.

Mae'r Gronfa wrth Gefn Datblygu Cyfalaf yn y Cronfeydd Cyfyngedig wedi'i lleihau i'r un ffigur. Dyma'r gronfa y byddai Llenyddiaeth Cymru yn tynnu arian ohoni pe bai gofyn iddo ad-dalu unrhyw arian grant i Gyngor Celfyddydau Cymru, yn unol â'r cytundeb Grant a'r Pridiant Cyfreithiol sydd ar waith ar y pryd.

**Amcanion a Pholisi Buddsoddi**

Polisi Llenyddiaeth Cymru yw buddsoddi'n ddarbodus er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o warged cyfalaf gweithio. Cyflawnir hyn drwy fonitro llif arian parod a rhwymedigaethau presennol yn rheolaidd.

Rhoddir gofal a diwydrwydd dyladwy i lefel y buddsoddiad, heb gymryd risgiau cysylltiedig. Yr amcan yw defnyddio cronfeydd ychwanegol a gronnir drwy fuddsoddi er mwyn hybu amcanion yr elusen drwy greu'r enillion ariannol gorau posib.

**Rheoli Risg**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi archwilio'r risgiau gweithredol a busnes strategol mawr sy'n wynebu'r elusen, a gallant gadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Diweddarwyd y Gofrestr Risg yn ystod 2018/19 ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu prosesau rheoli risg newydd fel y'u hamlinellir yn yr adran Rhaglen Wytnwch uchod.

Y prif risgiau a nodwyd yn 2018/19 oedd:

- **Diffyg sgiliau neu ymrwymiad ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr oherwydd diffyg ymwneud y Cyfarwyddwyr**

  Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru: yn adolygu ac yn cytuno ar y sgiliau sy'n ofynnol ac yn cynnal awdit sgiliau bob tair blynedd o leiaf; yn cynnal ymarferiad recriwtio i'r Bwrdd unwaith y flwyddyn; yn sicrhau cyfathrebu rheolaidd gyda'r ymddiriedolwyr ac yn nodi disgwyliadau a chyfrifoldebau yn eglur drwy hyfforddiant a'r broses gynefino; yn sicrhau bod adrodd eglur ac effeithiol i'r Bwrdd i gefnogi proses benderfynu wybodus.

- **Arian Cyhoeddus: Cymorth grant a ffynonellau o arian cyhoeddus yn gostwng a setliadau ariannu blynyddol yn cyfyngu ar allu i gynllunio**

  I leihau'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru: yn rheoli ac yn cynnal y berthynas gyda'r arianwyr craidd, Cyngor y Celfyddydau; yn gweithredu'r Strategaeth Codi Arian gyda thargedau cadarn ar gyfer arallgyfeirio a chynyddu ffynonellau incwm; yn mynd ati'n barhaus i geisio cyllid o ffynonellau eraill; yn paratoi cyllidebau blynyddol ar sail gwahanol sefyllfaoedd ariannu posib; yn cynnal gweithdrefnau ariannol tryloyw a chadarn; yn cyfleu gwaith Llenyddiaeth Cymru wrth Weinidogion, Aelodau Pwyllgor ac Aelodau Cynulliad perthnasol fel y bo'n briodol.

- **Lleihad o ran incwm ac arian masnachol**

  I leihau'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru: yn sicrhau bod swydd y Pennaeth Datblygu yn llwyddo i ddatblygu a chynnal y berthynas gydag arianwyr masnachol; yn gweithredu'r Strategaeth Codi Arian; yn sefydlu gwell gweithdrefnau monitro a gwerthuso i ddangos effaith Llenyddiaeth Cymru ym mhob maes strategol; yn gwella'r cysylltiad rhwng y strategaeth monitro a gwerthuso a chyfathrebu, er mwyn cyfathrebu'n well am ein cyrhaeddiad a'n heffaith.

---

**CYNLLUNIAU'R DYFODOL**

Caiff Cynllun Strategol 2019-22 Llenyddiaeth Cymru ei ddathlu mewn digwyddiadau lansio yng Ngŵyl y Gelli ym mis Mai ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, a bydd ymgyrch ymwneud â rhanddeiliaid yn ategu hyn er mwyn lledu'r gair am amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad ar ôl eu mireinio.

Yn y golofn gweithgaredd Cyfranogi, yn dilyn peilot llwyddiannus yn 2018/19, bydd Llenyddiaeth Cymru yn parhau'r Cynllun Nawdd Llên a Lles, sy'n agored i geisiadau gan awduron ac artistiaid ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o annog cynhwysiant ac ymwneud ehangach. Caiff pob prosiect ei ddyfeisio gan yr awdur gyda grŵp targed penodol mewn golwg, a nod Llenyddiaeth Cymru fydd cefnogi awduron sy'n bwriadu gweithio gydag unigolion sy'n uniaethu gyda thair nodwedd benodol rydym wedi'u nodi. Bydd Llenyddiaeth Cymru hefyd yn gwyntyllu sut y gellir ehangu'r rhaglen hon i gynnwys ceisiadau gan sefydliadau a grwpiau.

Bydd y ddarpariaeth Datblygu Awduron yn parhau â sawl rhaglen hirsefydlog ac effeithiol, megis Ysgoloriaethau a Mentora Awduron, a bydd hefyd yn cynnwys rhai mentrau newydd fydd â'r nod o roi cyfleoedd i egin awduron ac awduron sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd dau ddiwrnod Hyfforddiant i Awduron, a fydd yn cynnig arweiniad proffesiynol ar weithio yn y diwydiant, a bydd cynlluniau Cysgodi yn rhoi cyfle i awduron dethol ddyfnhau eu profiad o faes gwaith penodol. Caiff cronfa ddata Awduron Cymru ei lansio fel rhan o wefan Llenyddiaeth Cymru, gan gynnig adnodd gwerthfawr i drefnwyr ledled Cymru a'r tu hwnt. Yn ogystal, caiff Encil Awduron Nant ei lansio ar safle Tŷ Newydd. Mae'r bwthyn yn cael ei ailddatblygu fel bod modd ychwanegu bwthyn dwy ystafell wely at y ddarpariaeth, a gaiff ei ddefnyddio fel llety ychwanegol ar gyfer cyrsiau prysur, fel encil hunan-gynhwysol ac fel lle i'w logi'n breifat i unigolion a grwpiau.

Bydd Llenyddiaeth Cymru hefyd yn lansio cynllun nawdd peilot Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli, gan gynnig grantiau rhwng £50 a £1000 ar gyfer cyfleoedd datblygu proffesiynol ym maes llenyddiaeth. Nod y cynllun yw annog awduron o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli i ddatblygu eu potensial proffesiynol ac artistig a chreu cyfleoedd i roi cychwyn ar eu gyrfa neu eu hybu.

Ym maes Diwylliant Llenyddol Cymru, bydd Llenyddiaeth Cymru yn lansio swydd newydd, Children's Laureate Wales, a bydd yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb drwy alwad agored. Swydd dwy flynedd fydd hon, yn gweithio ochr yn ochr â Bardd Plant Cymru newydd ar gyfer 2019-21 (i'w gyhoeddi ym mis Mai). Bydd swydd Bardd Cenedlaethol Cymru yn parhau i ddatblygu a bydd yn gweithio ar brosiect ymchwil a datblygu pellgyrhaeddol yn edrych ar ddiwylliannau dwyieithog mewn gwahanol wledydd, fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Bydd Llenyddiaeth Cymru hefyd yn datblygu Strategaeth Ryngwladol ddiwygiedig, gan ehangu swyddogaeth ei lysgenhadon ymhellach byth.

Ochr yn ochr â'r rhaglenni yn y tair Colofn Gweithgaredd, bydd datblygiadau yng ngweithrediadau'r sefydliad er mwyn sicrhau bod y strwythurau, y prosesau a'r capasiti gennym i gyflawni ein hamcanion. Bydd y rhain yn cynnwys gwreiddio System Monitro a Gwerthuso, Cynlun Cyfathrebu a Marchnata a Strategaeth Codi Arian ddiwygiedig; gweithredu strwythur sefydliadol newydd ochr yn ochr ag amcanion a disgrifiadau swyddi manwl a system Adolygu Datblygiad Proffesiynol cefnogol; ymgynghori parhaus â rhanddeiliaid; ac adolygiad parhaus o systemau llywodraethu, gyda'r amcan o ennill Marc Elusen Ddibenadwy erbyn 2022.

---

### STRWYTHUR, LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

#### Dogfen lywodraethu

Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yw Llenyddiaeth Cymru, a ymgorfforwyd ar 19 Medi 2011 a'i gofrestru fel elusen ar 23 Mawrth 2012. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd amcanion a grymoedd y cwmni elusennol. Llywodraethir y cwmni o dan ei Erthyglau Cymdeithasu. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o'r Erthyglau Cymdeithasu ar dudalen 10.

#### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Penodir pob ymddiriedolwr newydd fel un o Gyfarwyddwyr y sefydliad yn dilyn proses recriwtio agored a thryloyw fel y'i diffinnir yn yr Erthyglau Cymdeithasu. Penodir ymddiriedolwyr i gryfhau'r sgiliau a'r profiad a gynrychiolir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae'r holl ymddiriedolwyr newydd yn cael pecyn cynefino ac yn cael gwybodaeth am swyddogaeth a chyfrifoldebau bod yn ymddiriedolwr, yn ogystal â hyfforddiant ar lywodraethiant elusennau.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasu yn datgan y bydd traean yr ymddiriedolwyr, fan lleiaf, yn rhoi'r gorau i'w safle ar Fwrdd Llenyddiaeth Cymru bob tair blynedd, gyda phrosesau recriwtio cysylltiedig ar waith i benodi ymddiriedolwyr newydd.

#### Strwythur sefydliadol

Caiff Llenyddiaeth Cymru ei arwain gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn ymddiriedolwyr y sefydliad. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y sefydliad ac am gynllunio ariannol cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith bob dydd rhedeg y sefydliad i'r tîm gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, sy'n cael ei chefnogi gan Uwch Dîm Rheoli sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd tuag at amcanion strategol a thargedau eraill y sefydliad.

#### Personél Rheoli Allweddol

Personél Rheoli Allweddol y sefydliad yw'r Prif Weithredwr, Lleucu Siencyn; y Dirprwy Brif Weithredwr, Elinor Robson; y Dirprwy Brif Weithredwr dros dro a'r Pennaeth Datblygu, Bronwen Price; y Pennaeth Rhaglenni, Elena Schmitz; a'r Swyddog Cyllid, Emma Richards. Mae tâl cydnabyddiaeth y Personél Rheoli Allweddol yn cael ei osod a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan Gadeirydd y Bwrdd, ac mae'n dilyn strwythur bandiau cyflog y sefydliad.

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR (GAN GYNNWYS ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR)

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

---

### MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDU

| | |
|---|---|
| **Enw'r elusen** | Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales |
| **Rhif cofrestru'r elusen** | 1146560 |
| **Rhif cofrestru'r cwmni** | 07779153 |
| **Swyddfa gofrestredig** | Canolfan Glyn Jones<br>Canolfan Mileniwm Cymru<br>CAERDYDD<br>CF10 5AL |
| **Ymddiriedolwyr** | A Wynne Evans (ymddiswyddodd 13/9/18)<br>W Ayot (ymddiswyddodd 13/9/18)<br>D Walford Davies (ymddiswyddodd 16/5/18)<br>K North<br>E George<br>E Charles<br>J Albert (ymddiswyddodd 16/5/18)<br>C Austin (penodwyd 16/5/18)<br>J D Ellis (penodwyd 16/5/18)<br>A Finlayson (penodwyd 16/5/18)<br>R Mohanram (penodwyd 16/5/18)<br>J O'Shea (penodwyd 16/5/18)<br>D Roberts (penodwyd 16/5/18)<br>O Taylor-Shaw (penodwyd 16/5/18)<br>C Summerhayes (penodwyd 12/9/18<br>C Thatcher (penodwyd 12/3/19) |
| **Prif swyddog gweithredol** | Lleucu Siencyn |
| **Ysgrifennydd y cwmni** | Ifan Brychan |
| **Prif fancwyr** | CAF Bank<br>25 Kings Hill Avenue,<br>Kings Hill,<br>Kent<br>ME19 4JQ |
| **Archwilwyr** | Baldwins Audit Services<br>Chartered Accountants & Statutory Auditors<br>Waters Lane Chambers<br>1-3 Waters Lane<br>Newport<br>NP20 1LA |

---

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr gan Fwrdd yr Ymddiredolwyr.

Ifan Brychan
**Ysgrifennydd y Cwmni**

Dyddiad: ......................

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEB YMDDIRIEDOLWYR

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

---

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r cwmni elusennol, gan gynnwys incwm a gwariant, ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifeg y DU, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNOL

## I YMDDIRIEDOLWYR LLENYDDIAETH CYMRU / LITERATURE WALES

---

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiadau Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) gan gynnwys FRS 102.

Yn ein barn ni, mae'r cyfrifon:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2019 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ar gyfer y farn hon**

Yr ydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) (ISA's (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Mae'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn cael ei disgrifio ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Yr ydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sydd yn berthnasol i'n harchwiliad o'r cyfrifon yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol yr FRC, ac yr ydym wedi cwblhau ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth yr ydym wedi eu harchwilio fel rhan o'r archwiliad yn ddigonol ac yn berthnasol er mwyn i ni allu darparu'n barn.

**Casgliadau ynglŷn â Busnes Gweithredol**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae'r ISA's (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd arnynt, ble:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r busnes gweithredol yn ystod paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgan unrhyw ddeunydd gamddatganiad yn y datganiadau ariannol a allai godi cwestiynau arwyddocaol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau i fabwysiadau dulliau cyfrifeg y busnes gweithredol ar gyfer cyfnod o ddeuddeg mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi ei hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

**Gwybodaeth bellach**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y wybodaeth bellach. Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol nad sydd yn ymwneud â'r a barn yr archwilwyr arnynt. Nid yw'n barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth bellach ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ar y cynnwys hwnnw.

Mewn cyswllt â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth bellach ac, o wneud hynny, i gysidro os yw'r wybodaeth bellach yn anghyson, o ran deunydd, gyda'r datganiadau ariannol; neu mae'n gwybodaeth ni fel rhan o'r archwiliad felly yn cael ei gyfrif yn gamarweiniol o ran deunydd. Os fyddwn ni'n adnabod anghysondeb neu ddeunydd gamddatganiadol, rhaid i ni benderfynu os oes deunydd gamddatganiadol yn y datganiadau ariannol neu os oes deunydd camddatganiadol yn y wybodaeth bellach. Os, ar sail y gwaith a wnaed, y byddwn ni'n dod i gasgliad bod deunydd camddatganiadol yn y wybodaeth bellach, mae'n ofynnol i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynglyn â'r mater hwn.

**Materion y mae angen i ni roi adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn y datganiadau ariannol yn gyson â'r deunydd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr; neu
- nid chadwyd cofnodion cyfrifyddu digon da; neu
- nid yw'r cyfrifon yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chafwyd yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau oedd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad

**Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'u hunain bod y datganiadau hynny yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer pa bynnag reolaeth fewnol ag y mae'r ymddiriedolwyr yn credu sy'n addas i alluogi paratoad y datganiadau ariannol sydd yn rhydd o unrhyw ddeunydd camddatganiadol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgan, os yn berthnasol, unrhyw faterion yn ymwneud â'r busnes gweithredol ac yn defnyddio'r busnes gweithredol fel sail i'r cyfrifon oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu i ddiddymu ei weithrediadau, neu pe na fyddai unrhyw opsiwn amgen ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilwyr dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fe'n penodwyd fel archwilwyr o dan adran 144 y Ddeddf Elusennau 2011 ac fe wneir yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a geir yno.

Ein nod yw casglu sicrwydd rhesymol os yw'r datganiadau ariannol, ar y cyfan, yn rhydd o unrhyw ddeunydd camddatganiadol, boed hynny oherwydd twyll neu wallau, ac i gynhyrchu adroddiad yr archwilwyr yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad wedi ei gynnal yn unol â safonau'r ISAs (DU) yn llwyddo i ganfod deunyddiau camddatganiadol bob tro. Gall gamddatganiadau godi yn dilyn twyll neu wallau. Cânt eu cyfrif fel deunyddiau os, yn unigol neu wedi'u cronni, y gellir credu y gallant, o fewn rheswm, gael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir canfod disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ni ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan yr FRC: http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilwyr.

**Sarah Case FCA DChA (Uwch Archwilydd Statudol)**
**ar gyfer ac ar ran Baldwins Audit Services** ........................

**Cyfrifwyr Siartredig**
**Archwilwyr Statudol**

Waters Lane Chambers
1-3 Waters Lane
NEWPORT
UK
NP20 1LA

Mae Baldwins Audit Services yn gymwys i'w penodi fel archwilwyr yr elusen trwy ei gymhwyster i'w penodi fel archwilwyr cwmni o dan adran 1212 y Ddeddf Cwmnïau 2006.

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
## GAN GYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT

### *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019*

| | | **Cronfeydd Anghyfyngedig 2019** | **Cronfeydd Cyfyngedig 2019** | **Cyfanswm 2019** | Cyfanswm 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Incwm a gwaddolion o:** | | | | | |
| Rhoddion a chymunroddion | **3** | 3,391 | - | 3,391 | 1,151 |
| Gweithgareddau elusennol | **4** | 1,095,901 | 64,258 | 1,160,159 | 1,197,562 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | **5** | 27,239 | - | 27,239 | 34,421 |
| Buddsoddiadau | **6** | 1,197 | - | 1,197 | 542 |
| Incwm arall | **7** | 5,987 | - | 5,987 | 5,616 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | 1,133,715 | 64,258 | 1,197,973 | 1,239,292 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Codi arian | **8** | 30,432 | - | 30,432 | 30,788 |
| Gweithgareddau elusennol | **9** | 1,088,538 | 1,431,733 | 2,520,271 | 1,154,825 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd** | | 1,118,970 | 1,431,733 | 2,550,703 | 1,185,613 |
| **(Gwariant)/incwm net ar gyfer y flwyddyn/ Symudiad net mewn cronfeydd** | | 14,745 | (1,367,475) | (1,352,730) | 53,679 |
| Balansau cronfeydd ar 1 Ebrill 2018 | | 256,220 | 2,298,719 | 2,554,939 | 2,501,260 |
| **Balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2019** | | 270,965 | 931,244 | 1,202,209 | 2,554,939 |

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig yn ystod y flwyddyn.

Mae unrhyw incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol hefyd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o ran cyfrif incwm a gwariant.

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## MANTOLEN

### *AR 31 MAWRTH 2019*

| | Nodiadau | 2019 £ | 2019 £ | 2018 £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | **14** | | 892,939 | | 2,246,738 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | **15** | 1,338 | | 306 | |
| Dyledwyr | **16** | 171,723 | | 163,869 | |
| Arian parody n y banc ac mewn llaw | | 510,923 | | 441,878 | |
| | | 683,984 | | 606,053 | |
| **Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **17** | (374,714) | | (297,852) | |
| Asedau cyfredol net | | | 309,270 | | 308,201 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 1,202,209 | | 2,554,939 |
| **Cronfeydd incwm** | | | | | |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | **20** | | 931,244 | | 2,298,719 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | | |
| Cronfeydd dynodedig | **21** | 67,938 | | 69,047 | |
| Cronfeydd anghyfyngedig cyffredinol | | 203,027 | | 187,173 | |
| | | | 270,965 | | 256,220 |
| | | | 1,202,209 | | 2,554,939 |

Mae'r cwmni wedi'i eithrio o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 rhag gorfod cael ei archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, er bod archwiliad wedi'i gynnal o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr elusen yn cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag adran 386 o'r Ddeddf, ac am baratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o ran cyfrifon, i'r graddau ag sy'n berthnasol i'r cwmni.

Nid oes unrhyw aelod o'r cwmni wedi cyflwyno hysbysiad, yn unol ag adran 476, sy'n mynnu bod y cyfrifon hyn yn cael eu harchwilio o dan ofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr Ymddiriedolwyr ar 23/11/19

K North
**Ymddiriedolwr**

J Dafydd Ellis
**Ymddiriedolwr**

# LLENYDDIAETH CYMRU/LITERATURE WALES

## DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

## *AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019*

| | Nodiadau | 2019 £ | 2019 £ | 2018 £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | | | |
| Arian parod a gynhyrchwyd o weithgareddau | 25 | | 71,875 | | 73,687 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol a brynwyd | | (4,027) | | (2,733) | |
| Llog a dderbyniwyd | | 1,197 | | 542 | |
| **Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau buddsoddi** | | | (2,830) | | (2,191) |
| **Ariad parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau ariannu** | | | - | | - |
| **Cynnydd net sy'n gyfateb i arian parod** | | | 69,045 | | 71,496 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | | 441,878 | | 370,382 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | | 510,923 | | 441,878 |

### 1 Polisïau Cyfrifo

**Gwybodaeth am yr elusen**
Mae Llenyddiaeth Cymru/Literature Wales yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorfforaethu yn Lloegr a Chymru. Y swyddfa cofrestredig yw Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, Cymru CF10 5AL.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon yn unol â [dogfen lywodraethu'r] elusen, y Ddeddf Cwmnïau 2006 a "Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau: Datganiad a'r Arfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102)" (a ddiwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn cychwyn 1 Ionawr 2016). Mae'r cwmni yn ateb y diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

Paratowyd y datganiadau ariannol gan gymhwyso diwygiadau Adolygiad Teirblwydd FRS 102 2017 yn llawn.

Caiff y cyfrifon eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol yr elusen. Caiff y symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn eu talgrynnu i'r £ agosaf.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu i gynnwys y gwaith o ailbrisio eiddo rhydd-ddaliad ac i gynnwys eiddo buddsoddi ac offerynnau ariannol penodol ar werth teg. Nodir y prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd isod..

### 1.2 Busnes gweithredol

Nododd yr elusen weddill anghyfyngedig o £14,745, a diffyg cyfyngedig net o £18,029 yn ogystal ag amhariad cronfa cyfyngedig o £1,349,446 (2018 – gweddill o £53,679). Mae gan yr elusen gronfa ariannol wrth gefn digonol ac mae'n monitro canlyniadau yn rheolaidd. Ar sail hyn, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen yn fusnes gweithredol ac nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r elusen i barhau i fod yn fusnes gweithredol.

### 1.3 Cronfeydd elusennol

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

**Cronfeydd dynodedig**
Cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen sydd wedi'u neilltuo er mwyn ariannu gweithgareddau penodol yr elusen yn y dyfodol.

**Cronfeydd cyfyngedig**
Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiadau pan gânt eu nodi gan y rhoddwr neu pan gaiff arian ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach o natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## 1 Polisïau Cyfrifo (Parhad)

### 1.4 Adnoddau sy'n dod i mewn

Caiff yr holl adnoddau sy'n dod i mewn eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fydd gan yr elusen yr hawl gyfreithiol i'r incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol gywir.

**Grantiau**
Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy eu trin mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu dibenion a thelerau'r grant.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy at ddibenion penodol eu trin fel cronfeydd cyfyngedig er mwyn i unrhyw gronfeydd nas defnyddiwyd gael eu nodi ar wahân.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy er mwyn hwyluso'r broses gyffredinol o redeg y prosiect h.y. lle y gall y cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr ddewis sut y caiff y cronfeydd eu gwario, eu trin fel cronfeydd anghyfyngedig.

Caiff cyfraniadau arian parod eu cydnabod ar ôl eu derbyn. Caiff cyfraniadau eraill eu cydnabod pan fydd yr elusen wedi cael gwybod amdanynt, oni bai bod angen gohirio'r swm oherwydd amodau perfformiad. Caiff treth incwm adenilladwy o ran cyfraniadau a dderbyniwyd drwy Rodd Cymorth neu weithredoedd cyfamodi ei chydnabod ar yr adeg y caiff y cyfraniad ei wneud.

Mae trosiant yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy ac yn cynrychioli symiau sy'n dderbyniadwy am nwyddau a gwasanaethau a roddwyd fel rhan arferol o fusnes, yn net o ddisgowntiau, TAW a threthi eraill sy'n gysylltiedig â gwerthiannau.

### 1.5 Adnoddau a ddefnyddiwyd

Rhoddir cyfrif am wariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori.

.

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny yr aeth yr elusen iddynt wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sydd eu hangen i'w cynnal.

- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac maent yn cynnwys ffioedd yr archwiliad a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith strategol o reoli'r elusen.

- Mae'r holl gostau wedi'u dyrannu rhwng categorïau gwariant y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail a gynllunnir i adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Mae costau sy'n ymwneud â gweithgarwch penodol wedi'u dyrannu'n uniongyrchol.

**Gwrthbwyso**
Ni wrthbwyswyd unrhyw asedau, rhwymedigaethau, incwm na threuliau, onid yw FRS 102 SORP neu FRS 102 yn mynnu neu'n caniatáu hynny.

### 1.6 Asedau sefydlog diriaethol

I ddechrau, caiff asedau sefydlog diriaethol eu mesur yn ôl cost a'u mesur wedi hynny yn ôl cost neu brisiad, yn net o ddibrisiant ac unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth.

Caiff dibrisiant ei gydnabod er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu bywydau defnyddiol ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Ailbrisio bob 5 mlynedd |
| Offer a pheiriannau | lleihau balans 10% a 20% |
| Gosodiadau a ffitiadau | lleihau balans 10% |

**1 Polisïau Cyfrifo (Parhad)**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno i ailbrisio'r tir ac adeiladau sy'n eiddo i'r elusen bob 5 mlynedd, o Hydref 2019 ymlaen.

Caiff asedau sefydlog eu datgan yn ôl cost llai dibrisiant cronedig. Ni chyfalefir ychwanegiadau sy'n costio llai na £500.

**1.7 Stociau**

Caiff stociau eu datgan yn ôl cost a phris gwerthu amcangyfrifedig, pa un bynnag sydd isaf, llai costau cwblhau a gwerthu. Mae'r gost yn cynnwys deunyddiau uniongyrchol a, lle y bo'n briodol, gostau llafur uniongyrchol a'r costau cyffredinol hynny yr aed iddynt er mwyn dod â'r stociau i'w lleoliad a'u cyflwr presennol. Caiff eitemau a gedwir i'w dosbarthu am ddim cydnabyddiaeth neu gydnabyddiaeth nominal eu mesur yn ôl cost ailadeiladu a chost, pa un bynnag sydd isaf.

Gwerth gwireddadwy net yw'r pris gwerthu amcangyfrifedig llai'r holl gostau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chwblhau a'r costau yr eir iddynt wrth farchnata, gwerthu a dosbarthu.

**1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar alw a gedwir yn y banc, buddsoddiadau hylifol byrdymor eraill â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau o dan rwymedigaethau presennol.

**1.9 Offerynnau ariannol**

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol i ddechrau yn ôl eu gwerth trafodyn a chânt eu mesur ar ôl hynny yn ôl eu gwerth setlo.

***Asedau ariannol sylfaenol***

**Dyledwyr**
Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill ar swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachol a gynigiwyd. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a ragdalwyd yn net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

***Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol***

**Credydwyr a darpariaethau**
Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol y mae'n debyg y bydd yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti a lle y gellir mesur y swm sy'n daladwy i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar swm eu setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

**Polisi rhwymedigaethau**
Cydnabyddir rhwymedigaethau yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt ddod yn daladwy.

**1.10 Trethiant**

Fel elusen, mae Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales wedi'i heithrio rhag trethiant mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a gafwyd o fewn adrannau 478-489 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992, i'r graddau y mae'r cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

### 1 Polisïau Cyfrifo (Parhad)

### 1.11 TAW anadenilladwy

Codir TAW anadenilladwy yn erbyn y categori o adnoddau a ddefnyddiwyd yr aethpwyd iddi mewn perthynas ag ef.

### 1.12 Pensiynau

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei chyflogeion. Delir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r elusen. Codir cyfraniadau sy'n daladwy ar y cyfrif elw a cholled yn y flwyddyn y maent yn daladwy ac fe'u codir yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

### 2 Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Wrth roi polisïau cyfrifyddu'r elusen ar waith, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddyfarnu, amcangyfrif a thybio swm cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn hawdd eu gweld o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol eu hadolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn ystod y cyfnod y bydd yr amcangyfrif yn cael ei ddiwygio pan fydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yn ystod y cyfnod a chyfnodau yn y dyfodol pan fydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw a chyfnodau yn y dyfodol.

### 3 Rhoddion a Chymunroddion

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | **2019** | 2018 |
| | **£** | £ |
| Rhoddion a Chymunroddion | 3,391 | 1,151 |
| **Rhoddion a Chymunroddion** Arall | 3,391 | 1,151 |
| | 3,391 | 1,151 |

## 4 Gweithgareddau elusennol

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|
| Grantiau | 955,245 | 1,016,857 |
| Incwm o weithgareddau | 204,914 | 180,705 |
| | 1,160,159 | 1,197,562 |
| Dadansoddiad yn ôl cronfa | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 1,095,901 | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 64,258 | |
| | 1,160,159 | |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | 1,159,266 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | 38,296 |
| | | 1,197,562 |
| **Grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad** | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 851,765 | 851,701 |
| Llywodraeth Cymru | 14,000 | 92,190 |
| Llenyddiaeth a Llesiant | 4,000 | 3,290 |
| Bardd Plant Cymru | 10,000 | 11,620 |
| Ffrindiau Darllen | 37,758 | 35,336 |
| Arall | 37,722 | 22,720 |
| | 955,245 | 1,016,857 |

## 5 Gweithgareddau masnachu eraill

| | Cronfeydd Anghyfyngedig 2019 £ | Cyfanswm 2018 £ |
|---|---|---|
| Gwerthiant llyfrau | 9,377 | 8,172 |
| Hurio Tŷ Newydd | 17,862 | 26,249 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 27,239 | 34,421 |

## 6 Buddsoddiadau

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig** | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | **2019** | 2018 |
| | **£** | £ |
| Llog derbyniadwy | 1,197 | 542 |

## 7 Incwm arall

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Incwm arall | 5,987 | 5,616 |

## 8 Codi arian

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| <u>Gweithgareddau masnachu</u> | | |
| Ty Newydd | 14,581 | 15,566 |
| Costau gweinyddol | 15,851 | 15,222 |
| Gweithgareddau masnachu | 30,432 | 30,788 |
| | 30,432 | 30,788 |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | |
| Gweithgareddau masnachu | | 30,788 |

## 9 Gweithgareddau elusennol

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Amhariad | 1,349,446 | - |
| Cymryd Rhan | 364,081 | 386,888 |
| Datblygu Awduron | 435,628 | 403,877 |
| Cynrychioli a hyrwyddo rhyngwladol | 89,395 | 72,583 |
| Plant a Phobl Ifanc | 142,195 | 146,616 |
| Digidol | 19,270 | 17,509 |
| | 2,400,015 | 1,027,473 |
| Arian grant ar gyfer gweithgareddau (gweler nodyn 10) | 97,428 | 101,600 |
| Cyfran o gostau cynnal (gweler nodyn 11) | 8,380 | 10,657 |
| Cyfran o gostau llywodraethu (gweler nodyn 11) | 14,448 | 15,095 |
| | 2,520,271 | 1,154,825 |
| **Dadansoddiad yn ôl cronfa** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 1,088,538 | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 1,431,733 | |
| | 2,520,271 | |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | 1,135,951 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | 18,874 |
| | | 1,154,825 |

## 10 Grantiau taladwy

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Grantiau i sefydliadau | 19,648 | 12,145 |
| Grantiau i unigolion drwy sefydliadau | 14,940 | 15,327 |
| Grantiau i unigolion (Ysgoloriaethau) | 62,840 | 74,128 |
| | 97,428 | 101,600 |

## 11 Costau cynnal

| | Costau Cynnal | Costau Llywodraethu | 2019 | 2018 | Sail y dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | |
| Dibrisiant a cholled ar gwarediad asedau sefydlog | 8,380 | - | 8,380 | 10,657 | |
| Ffioedd archwilio | - | 8,200 | 8,200 | 8,200 | Llywodraethu |
| Costau uniongyrchol | - | 1,317 | 1,317 | 1,148 | Llywodraethu |
| Costau gweinyddol | - | 4,931 | 4,931 | 5,747 | Llywodraethu |
| | 8,380 | 14,448 | 22,828 | 25,752 | |
| Dadansoddwyd rhwng Gweithgareddau elusennol | 8,380 | 14,448 | 22,828 | 25,752 | |

Mae costau llywodraethu yn cynnwys talu £8,200 i'r archwilwyr am ffioedd archwilio.

## 12 Symudiad net mewn cronfeydd

Nodir symudiad net mewn cronfeydd ar ôl codi ffioedd/(credydu)

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y cwmni am archwilio datganiadau ariannol y cwmni | 8,200 | 8,200 |
| Amhariad asedau sefydlog diriaethol y mae'r cwmni yn berchen arnynt | 1,349,446 | - |
| Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol y mae'r cwmni yn berchen arnynt | 3,863 | 3,335 |
| Colled ar warediad asedau sefydlog y mae'r cwmni yn berchen arnynt | 4,517 | 7,322 |

## 13 Cyflogeion

**Nifer y cyflogeion**

Nifer y staff a gyflogwyd bob mis, ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2019<br>Nifer | 2018<br>Nifer |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y cyflogeion | 22 | 22 |

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Costau staff gros | 538,585 | 524,037 |
| Yswiriant Cenedlaethol Cyflogwr | 48,553 | 46,863 |
| Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | 12,912 | 10,326 |
| Cyfanswm Costau Staff | 600,050 | 581,226 |

Nifer y cyflogeion a enillodd rhwng £60,000 a £70,000 yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2019<br>Nifer | 2018<br>Nifer |
|---|---|---|
| £60,000 - £70,000 | 1 | 1 |

Personél Rheoli Allweddol

Cyfanswm buddiannau cyflogeion personél rheoli allweddol yr elusen oedd £184,170 - 5 personél allweddol (2018: £148,404 - 4 personél allweddol).

## 14 Amhariadau

Cwblhawyd profion amhariad lle bo'n briodol ac mae'r colledion amhariad canlynol wedi'u cydnabod yn y cyfrif elw a cholled:

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| O ganlyniad i: | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 1,349,446 | - |

**15 Asedau sefydlog diriaethol**

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Peiriannau a chyfarpar | Gosodiadau a ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 2,219,446 | 3,020 | 44,352 | 2,266,818 |
| Ychwanegiadau | - | - | 4,027 | 4,027 |
| Gwarediadau | - | - | (8,499) | (8,499) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 2,219,446 | 3,020 | 39,880 | 2,262,346 |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | - | 1,894 | 18,186 | 20,080 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | - | 113 | 3,750 | 3,863 |
| Colledion amhariad | 1,349,446 | - | - | 1,349,446 |
| Dilëwyd o ganlyniad i waredìad | - | - | (3,982) | (3,982) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,349,446 | 2,007 | 17,954 | 1,369,407 |
| **Swm cario asedau ariannol** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 870,000 | 1,013 | 21,926 | 892,939 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 2,219,446 | 1,126 | 26,166 | 2,246,738 |

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru pridiant cyfreithiol dros eiddo a ddelir o fewn yr asedau sefydlog. Yr eiddo hyn yw Tŷ Newydd a Nant ac Hafodty, Criccieth, Gwynedd.

Ceir manylion yr amhariad a nodwyd ar gyfer y flwyddyn yn adroddiad yr ymddiriedolwyr ac yn nodiadau 14 a 21.

**16 Stociau**

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Nwyddau gorffenedig a nwyddau i'w hailwerthu | 1,338 | 306 |

**17 Dyledwyr**

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | £ | £ |
| Dyledwyr masnach | 159,372 | 156,666 |
| Dyledwyr eraill | 95 | 64 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 12,256 | 7,139 |
| | 171,723 | 163,869 |

## 18 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Nodyn | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|---|
| Trethiant a nawdd cymdeithasol arall | | 12,795 | 11,263 |
| Incwm gohiriedig | 18 | 129,303 | 140,212 |
| Credydwyr masnach | | 141,884 | 91,480 |
| Credydwyr eraill | | 90,732 | 54,897 |
| | | 374,714 | 297,852 |

## 19 Incwm gohiriedig

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig arall | 129,303 | 140,212 |

Mae incwm gohiriedig wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | 140,212 | 108,356 |
| Incwm a dderbyniwyd | 199,520 | 187,569 |
| Incwm a ryddhawyd | (210,429) | (155,713) |
| | 129,303 | 140,212 |

Wedi'i gynnwys o fewn incwm gohiriedig mae £117,078 sy'n ymwneud â chyrsiau a masnachu, ac mae £12,225 yn ymwneud â grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad a dderbyniwyd ymlaen llaw.

## 20 Cynlluniau budd-daliadau ymddeol

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer pob cyflogai cymwys. Delir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r elusen, a hynny mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol

Y tâl i'r cyfrif incwm a gwariant o ran cynlluniau cyfraniadau diffiniedig oedd £39,224 (2018 - £42,401).

**21 Cronfeydd cyfyngedig**

Mae cronfeydd incwm yr elusen yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig sy'n cynnwys y cyfraniadau a'r grantiau nas defnyddiwyd canlynol a ddelir mewn ymddiriedolaeth at ddibenion penodol:

| | | Symudiad mewn cronfeydd | | | Symudiad mewn cronfeydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Balans ar 1 Ebrill 2017 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddi-wyd | Balans ar 1 Ebrill 2018 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddi-wyd | Trosglwyddiad | Ailbrisio, enillion a cholledion | Balans ar 31 Mawrth 2019 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llên Pawb | - | 29,517 | - | 29,517 | 13,500 | (33,101) | - | - | 9,916 |
| Y Neuadd | 1,004 | - | - | 1,004 | - | - | (1,004) | - | - |
| Llenyddiaeth a Llesiant | 17,548 | 1,090 | (4,095) | 14,543 | 3,000 | (3,214) | - | - | 14,329 |
| Bardd Ieuenctid Cymru | 1,350 | - | - | 1,350 | - | - | - | - | 1,350 |
| Ymddiriedolaeth Rhys Davies | 3,684 | - | - | 3,684 | - | - | - | - | 3,684 |
| Bardd Plant Cymru | 5,898 | - | (165) | 5,733 | 10,000 | (9,237) | 1,004 | - | 7,500 |
| Cronfa Datblygu Cyfalaf Wrth Gefn | 2,219,446 | - | - | 2,219,446 | - | - | - | (1,349,446) | 870,000 |
| Ysgoloriaeth Jan Mark | 5,870 | - | - | 5,870 | - | - | - | - | 5,870 |
| Ysgoloriaeth Judi Thwaite | 500 | - | - | 500 | - | - | - | - | 500 |
| Ffrindiau Darllen | 846 | 1,104 | - | 1,950 | 37,758 | (34,621) | - | - | 5,087 |
| Gŵyl Llên Plant Caerdydd | - | 1,047 | (1,047) | - | - | - | - | - | - |
| IOF | - | 347 | (102) | 245 | - | (245) | - | - | - |
| Roald Dahl 100 | 18,636 | - | (9,612) | 9,024 | - | (210) | - | - | 8,814 |
| Dydd Dylan | 4,515 | - | (3,853) | 662 | - | - | - | - | 662 |
| Cymru Ryfedd a Chyfareddol | - | 5,191 | - | 5,191 | - | (1,659) | - | - | 3,532 |
| | 2,279,297 | 38,296 | (18,874) | 2,298,719 | 64,258 | (82,287) | - | (1,349,446) | 931,244 |

Llên Pawb – rhaglen sy'n cynnig cyfleoedd i lenyddiaeth gyfrannu at wella iechyd a llesiant unigolion mwyaf difreintiedig a bregus ein cymunedau. Caiff ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r rhaglen.

Y Neuadd - cyfnodolyn llenyddol Cymraeg ar-lein, dderbyniodd grant gan Gyngor Llyfrau Cymru. Caiff y balans ar y gronfa ei drosglwyddo i brosiect Bardd Plant Cymru.

Llenyddiaeth er Iechyd a Lles – cronfa sy'n cynnwys grantiau amrywiol ar gyfer prosiectau iechyd a lles, gan gynnwys gan Gyngor Gwynedd yn ystod 2018/19.

Awdur Ieuenctid Cymru – cronfa sy'n cynnwys grant ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol i'r Awdur. Caiff y balans ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau Children's Laureate Wales yn ystod 2019/20.

Ymddiriedolaeth Rhys Davies - llwyddodd Llenyddiaeth Cymru i sicrhau grant gan yr ymddiriedolaeth gan gynnwys costau i gwmpasu costau nifer o weithdai allestyn yn Ne Cymru.

Bardd Plant Cymru – mae Llenyddiaeth Cymru'n derbyn arian blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac S4C tuag at y prosiect.

Y Gronfa Datblygu Cyfalaf Wrth Gefn - defnyddiwyd i brynu'r eiddo rhydd-ddaliadol a thalu am y gwaith sylweddol a wnaed arno. Mae'r eiddo wedi cael ei ailbrisio ar ôl diwedd y flwyddyn ac mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno y dylai gwerth yr eiddo a adlewyrchir yn y cyfrifon adlewyrchu gwerth y farchnad. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru pridiant cyfreithiol dros yr eiddo tan Ebrill 2031. Pe bai'r elusen yn gwerthu neu'n newid defnydd yr eiddo, byddai'n ofynnol i'r elusen ad-dalu buddsoddiad gwreiddiol CCC o £1,010,192.

Ysgoloriaeth Jan Mark - yn cynnig bwrsariaethau tuag at y gost o fynychu cwrs yn Nhŷ Newydd i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf penodol.

Ysgoloriaeth Judi Thwaite - yn cynnig bwrsariaethau tuag at y gost o fynychu cwrs yn Nhŷ Newydd i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf penodol.

Ffrindiau Darllen – dyfarnwyd grant gan y Reading Agency i ariannu prosiect gyda phobl hŷn a phobl â dementia i ddechrau sgyrsiau trwy ddarllen.

IOF – darparwyd arian i awduron o Gymru fynychu digwyddiad yr International Literature Showcase.

Roald Dahl 100 – darparwyd arian i gefnogi prosiectau penodol ynghlwm â chanmlwyddiant Roald Dahl. Caiff y balans ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau gwaddol gyda phobl ifanc ledled y wlad.

Cymru Ryfedd a Chyfareddol – darparwyd cyllid ar gyfer taith ledled Cymru i archwilio mytholeg a chwedlau lleol. Mae'n cynnwys arian a dderbynwyd trwy werthiant stoc a gaiff ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau mewn cymunedau penodol.

**22 Cronfeydd dynodedig**

Mae cronfeydd incwm yr elusen yn cynnwys y cronfeydd dynodedig canlynol a neilltuwyd o gronfeydd anghyfyngedig gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion penodol:

| | | Symudiad mewn cronfeydd | | | Symudiad mewn cronfeydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Balans ar 1 Ebrill 2017 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddi-wyd | Balans ar 1 Ebrill 2018 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddi-wyd | Balans ar 31 Mawrth 2019 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cymynrodd Glyn Jones | 57,280 | - | - | 57,280 | - | - | 57,280 |
| Cronfa John Tripp | - | 7,247 | (667) | 6,580 | - | - | 6,580 |
| Ysgoloriaethau Ty Newydd | 4,736 | 1,121 | (670) | 5,187 | 361 | (1,470) | 4,078 |
| | 62,016 | 8,368 | (1,337) | 69,047 | 361 | (1,470) | 67,938 |

**Cymynrodd Glyn Jones** – Cymynroddwyd swm i Llenyddiaeth Cymru gyda'r bwriad o gefnogi Awduron Newydd a chreu man cyfarfod I Awduron. Mae'r gronfa hon wedi ei clustnodi ar gyfer datblygiadau yng Nghanolfan Glyn Jones yng Nghanolfan y Mileniwm.

**Cronfa John Tripp** – Cronfa wrth gefn i ddatblygu awduron.

**Ysgoloriaethau Tŷ Newydd** – Cronfa wrth gefn a neilltuwyd i ddatblygu awduron.

## 23 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

| | Cronfeydd anghyfyngedig 2019 £ | Cronfeydd cyfyngedig 2019 £ | Cyfanswm 2019 £ | Cyfanswm 2018 £ |
|---|---|---|---|---|
| Mae balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2019 yn cynnwys: | | | | |
| Asedau diriaethol | 22,939 | 870,000 | 892,939 | 2,246,738 |
| Asedau cyfredol/(rhwymedigaethau) | 248,026 | 61,244 | 309,270 | 308,201 |
| | 270,965 | 931,244 | 1,202,209 | 2,554,939 |

## 24 Trafodion a phartïon cysylltiedig

Ad-dalwyd treuliau teithio o £3,191 (2018: £251) i 6 aelod o'r Bwrdd (2018: 1 aelod o'r Bwrdd) yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cydnabyddiaeth a buddiannau'r ymddiriedolwyr
Ni chafodd unrhyw ymddiriedolwyr gydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (2018: £dim). Fodd bynnag, gwnaed taliadau i aelodau'r bwrdd ac unigolion cysylltiedig gan Lenyddiaeth Cymru am weithgareddau a drefnwyd yn uniongyrchol gan Lenyddiaeth Cymru neu am weithgareddau a gefnogwyd gan Lenyddiaeth Cymru drwy Awduron ar Daith.

Roedd 3 aelod o'r Bwrdd (2018: 2) a gafodd gyfanswm ffioedd o £4,220 (2018: £1,376).

## 25 Statws Cwmni

Mae'r sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Y gwarantwyr yw'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 1.

Caiff y rhwymedigaeth ei chyfyngu i swm o £1 fesul aelod yn unol â Memorandwm Cymdeithasu'r sefydliad.

## 26 Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|---|---|
| (Diffyg)/Gweddill am y flwyddyn | (1,352,730) | 53,679 |
| Addasiadau ar gyfer: | | |
| Incwm buddsoddi a gydnabuwyd yn y datganiad o weithgareddau ariannol | (1,197) | (542) |
| Diffyg ar warediad asedau gosodedig diriaethol | 4,517 | 7,322 |
| Dibrisiant a lleihad mewn gwerth asedau sefydlog diriaethol | 1,353,309 | 3,335 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio: | | |
| (Cynnydd)/lleihad mewn stociau | (1,032) | 447 |
| (Cynnydd)/lleihad mewn dyledwyr | (7,854) | 22,396 |
| (Lleihad)/cynnydd mewn credydwyr | 87,771 | (44,806) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn incwm gohiriedig | (10,909) | 31,856 |
| **Arian parod a ddefnyddiwyd gan weithrediadau** | 71,875 | 73,687 |